Y Bwrdd Taliadau

# Adroddiad ar Ymgynghoriad Rhan Dau o'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd

**29 GORFFENNAF 2025**

## Cefndir

**1.** Fe gafodd yr Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd: Rhan Dau, ei gyhoeddi ar 25 Mawrth, a daeth i ben ar 4 Mehefin 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion polisi ar gyflog yr Aelodau, cymorth ychwanegol i Aelodau, costau teithio, ymgysylltu â swyddfeydd ac etholwyr, a chymorth staffio yn y Seithfed Senedd.

**2.** Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar i'r sefydliadau, grwpiau ac unigolion hynny a roddodd o'u hamser i ymateb. Mae rhestr o'r rheini a ymatebodd yn Atodiad A.

**3.** Ar ôl ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad, mae'r Bwrdd wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r rhan fwyaf o'i gynigion, ac wedi diwygio rhai i adlewyrchu'r adborth. Mae'r Bwrdd, hefyd, wedi nodi y gallai fod angen ystyried canlyniad rhaglen waith barhaus Pwyllgor Busnes y Senedd maes o law.

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth i'r ymgynghoriad ac ystyriaethau'r Bwrdd mewn ymateb i bob un o'r cynigion.

# Cyflogau'r Aelodau

**Cynnig Un:**

**Bydd lefel cyflog yr Aelodau ar ddechrau'r Seithfed Senedd yn aros ar yr un lefel ag yn 2025/26, sef £76,380 ynghyd â chynnydd sy'n hafal i gyfradd mynegai ASHE Cymru a gyhoeddir ym mis Tachwedd 2025.**

**Cynnig Dau:**

**Defnyddir mynegai ASHE Cymru i benderfynu ar y newidiadau blynyddol i gyflogau'r Aelodau.**

**Cefndir**

**5.** Nododd y ddogfen ymgynghori gyflog cyfredol Aelodau'r Senedd, sef £76,380 y flwyddyn. Rhoddodd yr ymgynghoriad gyd-destun, hefyd, ar gyflogau'r Aelodau yn ystod tymor y Chweched Senedd: Bod cyflogau wedi'u rhewi am gyfnod yn ystod pandemig COVID ac, ers mis Mawrth 2021, bod codiadau cyflogau'r Aelodau wedi'u cysylltu â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yng Nghymru (neu ASHE), ond wedi bod yn destun cap ar godiadau o 3%. Penderfynodd y Bwrdd ddileu'r cap hwn o fis Ebrill 2025 a chododd cyflogau 6%, yn unol â chyfradd ASHE.

**6.** Nododd y ddogfen ymgynghori'r materion a ystyriwyd gan y Bwrdd ynghylch cyflogau Aelodau, gan gynnwys y canlynol:

- Cymariaethau â rolau tebyg yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector;
- meincnodi cyflog Aelodau mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU;
- rôl a chyfrifoldebau'r Aelodau,
- bod adborth o'r ymarferion ymgysylltu edi cynnwys aelodau'r cyhoedd, Aelodau o'r Senedd – gan gynnwys Gweinidogion y Llywodraeth, Comisiynwyr, cadeiryddion pwyllgorau ac Aelodau'r meinciau cefn, y cyfeirir atynt fel 'deiliaid swyddi ychwanegol' – Aelodau o'r Senedd Ieuenctid, a sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol;
- cyfradd y cyflog y bydd Aelodau'n ei gael ar ddechrau'r Seithfed Senedd;

- y cyflog am gyfrifoldebau ychwanegol, y cyfeirir ato fel ‘cyflog deiliad swydd ychwanegol’; a hefyd
- sut y dylid cynyddu’r cyflog yn flynyddol.

**Crynodeb o’r ymatebion**

**7.** Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad roi sylwadau ar y cynigion ynghylch cyflogau Aelodau.

**8.** Mewn ymateb i Gynnig 1 i gynyddu cyflogau'r Aelodau yn ôl cyfradd ASHE Cymru ym mis Tachwedd 2025, nododd Comisiwn y Senedd nad yw cyflogau'r Aelodau wedi'u hailosod yn ystod y Chweched Senedd ond yn lle hynny eu bod wedi cael codiadau chwyddiant wedi'u cymhwyso bob blwyddyn. Roedd y codiadau hyn wedi'u capio ar 3% cyn 2025-26, gyda'r cap yn cael ei ddileu wedyn gan roi cynnydd o 6% i'r Aelodau yn ystod y flwyddyn.

**9.** Er na chafwyd unrhyw ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i Ran Dau o’r ymgynghoriad, nododd y Bwrdd yr adborth i'r ymgynghoriad adolygiad blynyddol cynharach, pan nad oedd rhai ymatebwyr yn cefnogi cynnydd cyflog uwchlaw chwyddiant, ac roedd eraill yn dadlau na ddylid cynyddu cyflogau Aelodau o gwbl.

**10.** Galwodd yr Athro Kerry Howell o Brifysgol Northumbria am gydraddoldeb cyflog ar draws deddfwrfeydd y DU, gan ddweud:

> *‘…one may consider that such differentiation illustrates hierarchy and is not helpful when establishing recognition, further powers and the notion of devolution as process. In the 7th Senedd the membership will be elected as Members of the Senedd MSs which does put them on a par with MPs and MSPs’.*

**11.** Mewn ymateb i'r cynnig i ddefnyddio mynegai ASHE Cymru i bennu newidiadau blynyddol i gyflogau Aelodau, cytunodd grŵp Plaid Cymru mai'r mynegai yw'r set ddata fwyaf priodol i'w defnyddio o ystyried mai dyma'r unig fynegai sy'n ystyried data o Gymru'n benodol. Nododd grŵp Plaid Cymru, hefyd:

> *‘the decision on setting Members’ salaries and any subsequent changes in salary should be one for the independent Remuneration Board.’*

**12.** Nododd Comisiwn y Senedd fod y mynegai wedi bod yn uwch na'r cap o 3% ar gyflogau a gafodd ei ddileu yn 2025-26, a bydd hyn yn cael ei ystyried yn y broses gyllidebu.

**Trafod yr ymatebion**

**13.** Nododd y Bwrdd yr ymatebion i'r cynigion i gynyddu cyflogau'r Aelodau yn ôl mynegai ASHE Cymru ym mis Tachwedd 2025, ac i ddefnyddio mynegai ASHE Cymru i bennu newidiadau blynyddol i gyflogau'r Aelodau yn y Seithfed Senedd.

**14.** ASHE Cymru yw'r set ddata fwyaf cadarn a phriodol sydd ar gael ar hyn o bryd at y diben hwn, gan ei bod yn darparu data enillion swyddogol sy'n benodol i Gymru. Fe'i defnyddir yn helaeth, ac mae'n cynnig sail dryloyw a chymharol ar gyfer penderfyniadau cyflog, gan gynnal cysylltiad uniongyrchol â thueddiadau ym marchnad lafur Cymru.

Canlyniad

Penderfynodd y Bwrdd gadw cyflog Aelod ar £76,380 y flwyddyn ar gyfer dechrau'r Seithfed Senedd, wedi'i gynyddu gan gyfradd ASHE Cymru a gyhoeddir ym mis Tachwedd 2025, o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

Penderfynodd y Bwrdd y byddai cyflogau Aelodau yn y Seithfed Senedd yn cynyddu'n flynyddol yn ôl mynegai ASHE Cymru.

**Cynnig Tri:**

**Telir cyflog deiliad swydd ychwanegol ar gyfer y rolau hynny a restrir ym Mhennod 3 o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau ar gyfer 2025-26. Bydd cyfradd cyflog deiliad swydd ychwanegol yn codi bob blwyddyn yn unol ag ASHE.**

**Cynnig Pedwar:**

**Dileu cyfradd is y cyflog ychwanegol i Gadeiryddion Pwyllgorau ar gyfer y Seithfed Senedd.**

**Cynnig Pump:**

**Bydd y gyfradd y cyfeirir ati ar hyn o bryd fel y gyfradd cadeiryddion pwyllgorau (uwch) yn cael ei thalu i Aelodau’r Pwyllgor Busnes**

**Cefndir**

**15.** Mae'r Penderfyniad yn darparu ar gyfer talu cyflogau ychwanegol i rai deiliaid swyddi i gydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol y maent yn eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys

gweinidogion, y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, cadeiryddion pwyllgorau, ac aelodau'r Pwyllgor Busnes.

**16.** Ar hyn o bryd, mae 35 o'r 60 Aelod yn cael cyflog deiliad swydd ychwanegol ar gyfer 2025–26. Mae'r rolau perthnasol a'r lefelau cyflog cyfatebol wedi'u hamlinellu ym Mhennod 3 o'r Penderfyniad.

**17.** Er bod y Penderfyniad, ar hyn o bryd, yn darparu ar gyfer dwy gyfradd wahanol ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau, dim ond y gyfradd uwch sydd wedi'i defnyddio yn ystod y Chweched Senedd. Ar hyn o bryd, mae Aelodau'r Pwyllgor Busnes yn cael cyfradd sefydlog o gyflog ychwanegol, tra nad yw Prif Chwipiaid yn cael eu talu ar wahân o dan y Penderfyniad.

**18.** Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd y canlynol gan y Bwrdd:

- Dylai cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol gynyddu’n flynyddol yn unol â mynegai ASHE;
- dylid dileu'r gyfradd is ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau;
- a dylid talu Aelodau'r Pwyllgor Busnes y gyfradd a elwir ar hyn o bryd yn gyfradd cadeiryddion pwyllgor (uwch).

**Crynodeb o’r ymatebion**

**19.** Gwnaeth Comisiwn y Senedd sylwadau ar y cynnig ar gyflogau deiliaid swyddi ychwanegol i ddweud ei fod yn cytuno â chasgliad y Bwrdd na fyddai'n briodol i'r Bwrdd osod cap ar nifer y cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol sy'n daladwy.

**20.** Cafwyd y sylw canlynol gan grŵp Plaid Cymru:

> ‘*...it is disappointing that the Board's proposals once again have not taken into account the considerable demand and workload of a Group Whip... We therefore believe that the Chief Whip role should be a recognised remunerated additional office*’.

**21.** Mewn ymateb i'r cynnig i gael gwared ar y gyfradd is o gyflog ychwanegol ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau, awgrymodd y Prif Weithredwr ei chadw er mwyn hyblygrwydd, gan ddweud:

> *gan y bydd strwythur, cwmpas a chyfansoddiad y pwyllgorau yn y Seithfed Senedd yn anhysbys tan y Seithfed Senedd, efallai y byddai gwerth mewn cadw cyfradd is rhag ofn y bydd y Bwrdd yn ystyried bod rhesymau i wahaniaethu rhwng y cyfraddau ar gyfer rhai pwyllgorau.*

**22.** Nododd Comisiwn y Senedd yr effaith y byddai'r cynnig i dalu aelodau'r Pwyllgor Busnes yr hyn sy'n cyfateb i gyflog (uwch) Cadeirydd y Pwyllgor yn ei chael ar amcangyfrifon y gyllideb.

**Trafod yr ymatebion**

**23.** Ystyriodd y Bwrdd y gefnogaeth eang i gydnabod cyfrifoldebau ychwanegol drwy gyflogau atodol, a nododd fod alinio'r rhain ag ASHE yn cynnal cysondeb â'r mecanwaith cyflog yr Aelodau.

**24.** O ran cadeiryddion pwyllgorau, nododd y Bwrdd nad yw'r gyfradd is wedi'i defnyddio yn ystod y Chweched Senedd, a bod ceisio tystiolaeth neu asesu maen prawf penodol i gyfiawnhau gwahaniaeth bach mewn cyflog rhwng y cyfraddau uchaf ac isaf yn anodd ar ddechrau gwaith pwyllgor newydd. Cytunodd y Bwrdd y byddai ei ddileu yn symleiddio'r Penderfyniad. Mae'r Bwrdd o'r farn, hefyd, mai mater i'r Senedd yw gwneud penderfyniad o ran statws cymharol pwyllgorau. Wrth ystyried rôl Aelodau'r Pwyllgor Busnes, adolygodd y Bwrdd y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ailddatganodd y dylai cyflogau adlewyrchu cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â busnes ffurfiol y Senedd.

**25.** Ailbwysleisiodd y Bwrdd ei safbwynt ar y tâl i Chwipiaid y grŵp, gan ddatgan nad yw rolau mewnol y blaid — gan gynnwys swyddogaethau gwleidyddol a gyflawnir gan Chwipiaid — yn syrthio o fewn cwmpas y Penderfyniad. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod o'r farn mai dim ond Rheolwyr Busnes sydd â chyfrifoldebau am reoli busnes y Senedd, ddylai dderbyn cyflog ychwanegol.

Canlyniad:

Penderfynodd y Bwrdd osod cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol ar gyfer y Seithfed Senedd ar y lefelau presennol, fel a ganlyn (yn amodol ar gynnydd sy'n hafal i gyfradd mynegai ASHE Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025) ac y byddai cyflogau'n cynyddu'n flynyddol yn unol â ffigur ASHE Cymru a gyhoeddwyd yn ystod y mis Tachwedd blaenorol:

| Deiliaid Swyddi Ychwanegol | Cyflog ychwanegol | Cyfanswm cyflog |
|---|---|---|
| Y Prif Weinidog | £90,701 | £167,081 |
| Un o Weinidogion Cymru | £42,963 | £119,343 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | £42,963 | £119,343 |
| Dirprwy Weinidog | £25,063 | £101,443 |
| Y Llywydd | £48,930 | £125,310 |
| Dirprwy Lywydd | £25,063 | £101,443 |
| Comisiynydd y Senedd | £15,514 | £91,894 |
| Cadeirydd Pwyllgor | £15,514 | £91,894 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £15,514 | £91,894 |
| Arweinydd grŵp nad yw yn y Llywodraeth | £15,514 + £1,194 yr Aelod hyd at uchafswm o £42,963 | Hyd at uchafswm o £119,343 |

# Cymorth ychwanegol i'r Aelodau

**A ddylid cadw'r darpariaethau 'cymorth ychwanegol' mewn pennod benodol ar wahân, neu a ddylid eu prif ffrydio drwy gydol y Penderfyniad?**

**A yw'r diffiniadau, y derminoleg a'r darpariaethau sydd ym Mhennod 3A yn briodol ac a ydynt yn adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd?**

**A yw'r cymorth o ran anableddau yn ddigonol ac yn ddigon ymatebol i ddiwallu anghenion Aelodau, staff ac etholwyr?**

**Cynnig Un:**

**Caiff yr Aelodau hawlio hyd at £350 fesul dibynnydd y mis (hyd at uchafswm o 3 dibynnydd) ar gyfer costau gofal yn ystod wythnosau eistedd a chyfnodau pan fo Toriad y tu allan i oriau gwaith arferol, fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog, ac ar benwythnosau**

### Cefndir

**26.** Mae Pennod 3A o'r Penderfyniad yn darparu cefnogaeth ychwanegol i Aelodau sy'n wynebu rhwystrau i gyflawni eu rôl, gan gynnwys y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r rheini sydd angen addasiadau sy'n gysylltiedig ag anabledd. Diben y darpariaethau hyn yw adlewyrchu egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd, a bwriedir iddynt gynnig fframwaith mwy ymatebol i gefnogi anghenion unigol sydd y tu allan i'r lwfansau safonol.

**27.** Yn yr ymgynghoriad, ceisiodd y Bwrdd farn ynghylch a ddylid parhau i gyflwyno'r darpariaethau hyn mewn pennod ar wahân, neu a ddylid eu hintegreiddio drwy gydol y Penderfyniad. Gofynnodd, hefyd, a yw'r diffiniadau a'r derminoleg bresennol yn dal i fod yn briodol, ac a yw'r gefnogaeth sydd ar gael yn ddigonol i ddiwallu anghenion yr Aelodau, eu staff, a'u hetholwyr.

**28.** Adolygodd y Bwrdd y darpariaethau presennol i gefnogi Aelodau â chyfrifoldebau gofalu, a chynnig eu hymestyn. Roedd y cynigion yn cynnwys caniatáu i Aelodau hawlio hyd at £350 fesul dibynnydd, y mis (hyd at uchafswm o dri dibynnydd), am gostau gofal a gafwyd yn ystod wythnosau eistedd, Toriadau y tu allan i oriau gwaith arferol, ac ar benwythnosau.

### Crynodeb o'r ymatebion

**29.** Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylwadau uniongyrchol ar gwestiynau'r Bwrdd ynghylch fformat a strwythur Pennod 3A o'r Penderfyniad. Fodd bynnag, roedd grŵp Plaid

Cymru o blaid cadw pennod ar wahân ar gyfer cefnogaeth ychwanegol, gan nodi bod adran annibynnol yn darparu mynediad hawdd at wybodaeth berthnasol.

**30.** Mewn perthynas â Chynnig Un — caniatáu i Aelodau hawlio hyd at £350 fesul dibynnydd y mis (hyd at uchafswm o dri) am gostau gofal y tu allan i oriau gwaith arferol — roedd yr ymatebion yn gefnogol. Croesawodd grŵp Llafur Cymru y cynigion a chefnogodd grŵp Plaid Cymru nhw. Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan ymatebwyr eraill. Nododd Comisiwn y Senedd y byddai'n ceisio barn ar gyllidebu digonol ar gyfer y ddarpariaeth hon.

**31.** At hynny, anogodd y Grŵp y Bwrdd i ystyried argymhellion Pwyllgor Senedd y Dyfodol sy'n ymwneud â chostau gofalu, a chynigiodd fod y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn ymatebol i anghenion yr Aelodau.

**Trafod yr ymatebion**

**32.** Ystyriodd y Bwrdd yr adborth a gafwyd ar y cynigion ar gyfer cymorth ychwanegol. Er bod yr ymatebion yn gyfyngedig, roedd cytundeb eang â'r egwyddor o gefnogi Aelodau â chyfrifoldebau gofalu, a chyda'r newidiadau i hawliau fel y'u cynigiwyd.

**33.** Nododd y Bwrdd, hefyd, gefnogaeth i sicrhau bod diffiniadau a therminoleg yn cyd-fynd â model cymdeithasol anabledd. Cytunodd fod cadw pennod bwrpasol o fewn y Penderfyniad yn helpu i hyrwyddo gweledd, hygyrchedd a chysondeb wrth ddarparu cefnogaeth sydd wedi'i chynllunio i gael gwared ar rai o'r rhwystrau a allai fel arall atal rhai rhag sefyll etholiad.

Canlyniad:

Penderfynodd y Bwrdd weithredu'r cynnig i ganiatáu i Aelodau hawlio hyd at £350 fesul dibynnydd (plentyn o dan 16 oed neu ddibynnydd sy'n oedolyn) y mis (ar gyfer hyd at dri dibynnydd) i dalu costau gofal yn ystod wythnosau eistedd, Toriadau y tu allan i oriau gwaith arferol, a phenwythnosau.

Penderfynodd y Bwrdd gadw'r darpariaethau cymorth ychwanegol mewn pennod benodol ar wahân o'r Penderfyniad, a chadw'r derminoleg gyfredol i gyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd.

**Cynnig Dau:**

**Caiff yr Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda hwy yn ardal Caerdydd hawlio costau llety dros nos ychwanegol o hyd at £3,870 y flwyddyn ar gyfer y dibynnydd cyntaf, a hyd at £1,290 y flwyddyn fesul dibynnydd ychwanegol (hyd at uchafswm o 2)**

### Cefndir

**34.** Ar hyn o bryd mae'r Penderfyniad yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymorth lle mae Aelodau'n wynebu costau ychwanegol o ganlyniad i gyfrifoldebau gofalu.

**35.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai fod gan Aelodau sy'n symud i Gaerdydd yn ystod yr wythnos gyfrifoldebau gofalu am ddibynyddion sy'n byw gyda nhw, tra byddan nhw yn y brifddinas. Gall y cyfrifoldebau hyn arwain at gostau llety ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn y Penderfyniad.

**36.** Ar hyn o bryd, mae'r Penderfyniad yn darparu cefnogaeth i Aelodau a all ddangos bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda nhw yn ardal Caerdydd, hyd at £1,905 y flwyddyn, yn ogystal â'u costau craidd ar gyfer llety dros nos.

**37.** Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd y Bwrdd ymestyn y ddarpariaeth bresennol sy'n caniatáu i Aelodau hawlio hyd at £3,870 y flwyddyn ar gyfer y person dibynnol cyntaf a hyd at £1,290 y flwyddyn ar gyfer pob person dibynnol ychwanegol (hyd at uchafswm o ddau) sydd fel arfer yn byw gyda nhw yn ardal Caerdydd. Nod y cynnig yw darparu cymorth ymarferol i alluogi Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu i gymryd rhan lawn ym musnes y Senedd yng Nghaerdydd.

### Crynodeb o'r ymatebion

**38.** Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr roi sylwadau ar y cynnig hwn.

**39.** Anogodd grŵp Plaid Cymru y Bwrdd i ystyried argymhellion gan Bwyllgor y Senedd yn y Dyfodol ar gostau gofalu, ac awgrymodd y dylid adolygu'r cynnig yn flynyddol. Croesawodd grŵp Llafur Cymru y gefnogaeth i Aelodau â chyfrifoldebau gofalu. Ni chafwyd unrhyw sylwadau gan ymatebwyr eraill. Nododd Comisiwn y Senedd yr angen i sicrhau darpariaeth gyllidebol briodol

**40.** Nododd Comisiwn y Senedd y byddai'n ceisio barn ar sicrhau bod darpariaeth gyllidebol ddigonol yn cael ei gwneud i gefnogi'r cynnig hwn, pe bai'n cael ei weithredu.

### Trafod yr ymatebion

**41.** Ystyriodd y Bwrdd yr adborth a gafwyd mewn perthynas â chostau llety dros nos i bobl sy'n ddibynnol arnynt. Er bod nifer yr ymatebion yn gyfyngedig, roedd y rheini a gafwyd, yn gyffredinol, yn gefnogol i'r cynnig. Cydnabu'r Bwrdd fod y cynnig yn adlewyrchu realiti cyfrifoldebau gofalu'r Aelodau a'r angen i gynnal bywyd teuluol wrth weithio yng Nghaerdydd. At hynny, roedd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cefnogaeth yn parhau i fod yn gymesur

ac yn dryloyw, a nododd fod y cynnig yn gyson ag ymrwymiad ehangach y Bwrdd i hygyrchedd a chynhwysiant.

**42.** Ystyriodd y Bwrdd gasgliadau Pwyllgor y Senedd yn y Dyfodol yn ei adroddiad. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai Comisiwn y Senedd sefydlu meithrinfa ac argymhellodd ymrwymiad parhaus i weithio o bell yn y Senedd. Mae cynigion a phenderfyniadau'r Bwrdd wedi ceisio hwyluso a chefnogi Aelodau sydd ag amrywiaeth o anghenion gofalu ac mae adolygiad Ffyrdd o Weithio'r Bwrdd wedi ystyried y parhad disgwyliedig o weithio hybrid. Fodd bynnag, mater i'r Senedd a Chomisiwn y Senedd yw'r materion hyn a nodir ym Mhwyllgor Senedd y Dyfodol. Pe bai Comisiwn y Senedd yn penderfynu sefydlu meithrinfa yn y dyfodol, byddai'r Bwrdd yn dymuno adolygu'r cymorth gofal plant i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol ac yn gymesur.

Canlyniad:

Penderfynodd y Bwrdd weithredu'r cynnig i ganiatáu i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda nhw yn ardal Caerdydd, hawlio costau llety dros nos ychwanegol o hyd at £3,870 y flwyddyn ar gyfer y dibynnydd cyntaf, a hyd at £1,290 y flwyddyn fesul dibynnydd ychwanegol (hyd at uchafswm o ddau).

# Costau teithio

**Cynnig Un:**

**Dileu’r terfyn ar nifer y siwrneiau y caiff Aelod eu hawlio drwy’r cronfeydd canolog ar gyfer siwrneiau staff i Gaerdydd o’r etholaeth.**

### Cefndir

**43.** Ar hyn o bryd, mae'r Penderfyniad yn gosod terfyn ar nifer y teithiau y gall Aelod hawlio drwy gronfeydd canolog ar gyfer staff cymorth sy'n teithio rhwng yr etholaeth a Chaerdydd. Cyflwynwyd y terfyn hwn yn wreiddiol i sicrhau rheolaeth effeithiol ar y gyllideb, ac i adlewyrchu'r disgwyliad y byddai staff wedi'u lleoli'n bennaf mewn un lleoliad.

**44.** Yn ymarferol, mae Aelodau yn aml yn gofyn i'w staff weithio'n hyblyg ar draws lleoliadau etholaethol a Chaerdydd, yn dibynnu ar anghenion busnes a phatrwm eistedd y Senedd. Mae'r Bwrdd wedi cael adborth yn ystod cyfnodau adolygu blaenorol sy'n awgrymu nad yw'r terfyn presennol yn adlewyrchu'r model gweithio hwn yn ddigonol.

**45.** Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd y Bwrdd ddileu'r terfyn ar nifer y teithiau y gellir hawlio amdanynt ar gyfer teithio staff o'r etholaeth i Gaerdydd. Y bwriad yw cynnig mwy o hyblygrwydd i Aelodau drefnu eu trefniadau swyddfa a'u cymorth staffio yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w harferion gwaith.

### Crynodeb o’r ymatebion

**46.** Croesawodd grŵp Llafur Cymru, grŵp Plaid Cymru a grŵp Ceidwadwyr Cymru i gyd y cynnig. Nododd grŵp Plaid Cymru y byddai’n caniatáu i Aelodau ddefnyddio staff yn fwy hyblyg a chefnogi eu datblygiad proffesiynol.

**47.** Nododd Comisiwn y Senedd y gallai cael gwared ar y cap arwain at hawlio treuliau heb gap yn erbyn cyllideb y Penderfyniad, a allai greu heriau cynllunio. Nododd, hefyd, y gallai’r newid gael goblygiadau o ran treth pe ystyrir bod teithio staff yn gyfystyr â chymudo i ail weithle, a chynghorodd y byddai angen cyngor pellach ar y pwynt hwn.

### Trafod yr ymatebion

**48.** Ystyriodd y Bwrdd yr adborth yn ymwneud â theithio staff a nododd fod yr ymatebion yn gyffredinol gefnogol i'r cynnig i ddileu'r terfyn ar deithiau a ariennir yn ganolog i Gaerdydd.

**49.** Nododd y Bwrdd y goblygiadau posibl o ran y gyllideb a threth, yn sgil mwy o deithio gan staff, a chytunodd i egluro ymhellach y diben yn y Penderfyniad bod y ddarpariaeth hon ar gyfer teithio achlysurol i ardal Caerdydd, gan staff sydd â'u man gwaith arferol mewn etholaeth y tu allan i ardal Caerdydd. Diben y ddarpariaeth yw sicrhau y gallai staff etholaeth fynychu digwyddiadau, cyfarfodydd neu hyfforddiant allweddol yn y Senedd, yn hytrach na bod ar gyfer cymudo arferol i'r gwaith. Nododd y Bwrdd fod hawliadau blaenorol am gostau o'r fath, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori, yn isel.

**50.** Cytunodd y Bwrdd, hefyd, i ystyried ailenwi 'cronfeydd canolog' ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd er mwyn rhoi mwy o eglurder a chynorthwyo dealltwriaeth o'i bwrpas.

Canlyniad:

Penderfynodd y Bwrdd egluro, a gweithredu'r cynnig i ddileu'r terfyn ar nifer y teithiau y gall Aelod eu hawlio drwy gronfeydd canolog ar gyfer teithio achlysurol i ardal Caerdydd, gan staff y mae eu gweithle arferol mewn etholaeth y tu allan i ardal Caerdydd.

### Cynnig Dau:

### Dileu'r terfyn ar nifer y siwrneiau y caiff Aelod eu hawlio ar gyfer aelodau o'r teulu sy'n teithio i Gaerdydd o'r etholaeth

#### Cefndir

**51.** Ar hyn o bryd, mae'r Penderfyniad yn gosod terfyn ar nifer y teithiau y gall Aelod hawlio ar gyfer aelodau o'r teulu sy'n teithio rhwng yr etholaeth a Chaerdydd. Mae'r ddarpariaeth hon yn cydnabod, oherwydd natur y rôl, y gall Aelodau dreulio cyfnodau estynedig i ffwrdd o'u cartref, ac y gall fod angen iddynt fod yng nghwmni aelodau o'r teulu ar brydiau.

**52.** Cyflwynwyd y cap presennol i sicrhau defnydd cyfrifol o arian cyhoeddus, gan gynnal cefnogaeth i Aelodau i gydbwyso eu gwaith a'u bywyd teuluol. Mae'r Bwrdd wedi cael adborth sy'n awgrymu y gallai'r terfyn fod yn gyfyngol mewn rhai amgylchiadau, ac efallai nad yw'n adlewyrchu disgwyliadau modern ynghylch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

**53.** Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd y Bwrdd ddileu'r cap ar nifer y teithiau hawliadwy ar gyfer aelodau'r teulu, gan gynnal atebolrwydd trwy barhau i gyhoeddi treuliau. Y bwriad yw darparu mwy o hyblygrwydd a chefnogi Aelodau i gyflawni eu rôl wrth gynnal ymrwymiadau teuluol.

**Crynodeb o'r ymatebion**

**54.** Gofynnodd y Prif Weithredwr am eglurhad ynghylch y diffiniad o "aelodau o'r teulu" gan fod y diffiniad a nodir yn y Rheolau Sefydlog yn ehangach na phartner neu blentyn dan 18 oed. Nododd fel a ganlyn:

> *'byddai'n fuddiol cynnwys paramedrau ychwanegol o amgylch diben y ddarpariaeth gan y gallai cyfeirio at 'aelodau o'r teulu' ddod â grŵp mawr o fewn cwmpas yr hawl i hawlio am wariant teithio.'*

**55.** Ni chefnogodd grŵp Plaid Cymru y cynnig. Awgrymodd y dylai'r terfyn presennol aros yn ei le a, phe bernir bod angen adolygiad, y dylai gael ei lywio gan arfer da mewn deddfwrfeydd cymharol.

**Trafod yr ymatebion**

**56.** Ystyriodd y Bwrdd yr ymatebion i'r cynnig i ddileu'r terfyn ar hawliadau teithio teuluol.

**57.** Cytunodd y Bwrdd fod darparu hyblygrwydd mewn trefniadau teithio teuluol yn cefnogi llesiant yr Aelodau, a'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, yn enwedig i'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu, neu sy'n byw yn bellach o Gaerdydd.

**58.** Nododd y Bwrdd fod Cynllun IPSA yn caniatáu i Aelodau Seneddol hawlio am deithiau gan eu dibynyddion (a'u gofalwyr lle bo angen), eu priod neu bartner rhwng eu hetholaeth a Llundain, heb derfyn rhagnodedig.

**59.** Nododd y Bwrdd, hefyd, y byddai unrhyw hawliadau'n parhau i gael eu gwneud yn unol â mecanweithiau atebolrwydd a thryloywder presennol, a bod hawliadau blaenorol am gostau o'r fath, fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori, yn isel.

**60.** Cytunodd y Bwrdd y dylai'r diffiniad o 'aelod o'r teulu', sydd i'w gymhwyso i'r ddarpariaeth hon, gynnwys partner, plentyn dan 18 oed neu oedolyn dibynnol, i gyd-fynd â'r diffiniad o'r un peth at ddibenion eraill a nodir yn y Penderfyniad.

**61.** Daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylid cadw'r terfyn o 12 ar nifer y teithiau a ganiateir gan aelodau'r teulu er mwyn sicrhau gwerth am arian a defnydd rhesymol o arian cyhoeddus, ac osgoi'r canfyddiad o risg o fudd personol uniongyrchol neu anuniongyrchol amhriodol i Aelodau, ond y byddai'n cael ei gymhwyso fesul dibynnydd yn hytrach na fesul Aelod. Byddai'r dull hwn yn sicrhau mwy o degwch i ddarparu cymorth i Aelodau sydd â theuluoedd mwy o faint, neu sydd â mwy nag un dibynnydd.

Canlyniad:

Penderfynodd y Bwrdd ymestyn y terfyn presennol ar nifer y teithiau y gall Aelodau hawlio ar gyfer partneriaid neu ddibynyddion. (plentyn dan 18 oed neu ddibynnydd sy’n oedolyn) yn teithio i Gaerdydd o'r etholaeth i wneud cais fesul partner a fesul dibynnydd, yn hytrach na fesul Aelod.

### Cynnig Tri:

### Dileu’r gofyniad i gyflwyno achos busnes ar gyfer teithiau rhyngwladol ac i gyhoeddi adroddiad ar y daith ar ôl dychwelyd. Mae’r Aelodau’n parhau i fod yn atebol i bobl Cymru drwy gyhoeddi eu treuliau

#### Cefndir

**62.** Ar hyn o bryd, mae'r Penderfyniad yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gyflwyno achos busnes cyn ymgymryd â thaith ryngwladol, a chyhoeddi adroddiad ar ôl iddyn nhw ddychwelyd. Cyflwynwyd y gofynion hyn i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd wrth ddefnyddio arian cyhoeddus ar gyfer teithio dramor.

**63.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod ymgysylltu rhyngwladol yn rhan gyfreithlon a gwerthfawr o rôl Aelod, yn enwedig yng nghyd-destun cysylltiadau rhyngseneddol, dysgu o arfer gorau rhyngwladol, a chynrychioli'r Senedd dramor.

**64.** Yn yr ymgynghoriad, cynigiodd y Bwrdd ddileu'r gofyniad i gyflwyno achos busnes a chyhoeddi adroddiad ar ôl y daith. O dan y cynnig hwn, byddai Aelodau’n parhau i gael eu dwyn i gyfrif drwy gyhoeddi eu treuliau, sy’n cynnwys teithio rhyngwladol. Y bwriad yw lleihau'r baich gweinyddol wrth gynnal tryloywder cyhoeddus.

#### Crynodeb o’r ymatebion

**65.** Cefnogodd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig ddileu'r achos busnes a'r gofynion adrodd, gan groesawu'r cynnig fel gostyngiad synhwyrol yn y baich gweinyddol.

**66.** Ni chefnogodd grŵp Plaid Cymru y cynnig. Dadleuodd y grŵp y dylai'r gofyniad i gyfiawnhau teithio rhyngwladol barhau i fod ar waith, er mwyn sicrhau atebolrwydd a defnydd priodol o arian cyhoeddus. Galwodd, hefyd, am hyblygrwydd ynghylch yr hyn a ystyrir yn 'adroddiad'.

**67.** Nododd y Prif Weithredwr y gallai cael gwared ar reolaethau arwain at gynnydd mewn teithio rhyngwladol heb oruchwyliaeth. Cynghorodd y gallai'r Bwrdd ddymuno cadw'r

paramedrau presennol o amgylch pwrpas teithio o'r fath, hyd yn oed os caiff y gofyniad achos busnes ei dynnu'n ôl.

**Trafod yr ymatebion**

**68.** Ystyriodd y Bwrdd adborth ar y cynnig i ddileu'r gofyniad i Aelodau gyflwyno achos busnes cyn teithio rhyngwladol a chyhoeddi adroddiad ar ôl y daith.

**69.** Nododd y Bwrdd mai cymysg oedd y safbwyntiau mewn ymateb i'r cynnig.

**70.** Ystyriodd y Bwrdd bod ei fwriad polisi gwreiddiol yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau, tra'n cynnal mesurau diogelwch cymesur ar gyfer gwerth am arian.

**71.** Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod achos busnes yn parhau i fod yn ddiogelwch priodol a chymesur i sicrhau gwerth am arian. Fodd bynnag, gan fod pob hawliad teithio yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Senedd, roedd gwerth cyfyngedig yn parhau o ran cadw'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad ar ôl taith.

Canlyniad:

Penderfynodd y Bwrdd gadw'r gofyniad i Aelodau gyflwyno achos busnes ar gyfer teithiau rhyngwladol, ond dileu'r gofyniad i gyhoeddi adroddiad ar ôl i'r daith gael ei chynnal.

# Swyddfa etholaethol ac ymgysylltu

### Cynnig Un:

### Cynyddu’r terfyn ar y swm y gellir ei drosglwyddo rhwng cyllideb y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yr Aelodau a’u cyllidebau staffio i 50%

**Cefndir**

**72.** Mae Pennod Chwech o’r Penderfyniad presennol yn darparu y gellir ad-dalu costau rhesymol i Aelodau sy’n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr, sef y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, i’w cynorthwyo â’u dyletswyddau fel cynrychiolwyr etholedig.

**73.** Ar hyn o bryd, mae’r Penderfyniad yn caniatáu ar gyfer trosglwyddo arian rhwng cyllideb Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yr Aelodau a’u cyllideb staffio, hyd at uchafswm o 25% o werth y gyllideb Costau Swyddfa a Chyswllt ag Etholwyr (£6,857 yn 2025-26).

**74.** Ceisiodd yr ymgynghoriad Rhan Un a gynhaliwyd gan y Bwrdd, farn ar y lefelau presennol o drosglwyddiad arian a ganiateir. Nododd dau grŵp gwleidyddol yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf hwnnw eu cefnogaeth i gynyddu'r terfyn ar y swm y gellir ei drosglwyddo.

**75.** Mae’r Bwrdd wedi ymrwymo i roi hyblygrwydd i’r Aelodau o ran eu defnydd o gyllidebau ac felly wedi cynnig y dylid cynyddu’r terfyn.

**Crynodeb o’r ymatebion**

**76.** Cytunodd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig, grŵp Plaid Cymru a grŵp Llafur Cymru â'r cynnig, yn ogystal â'r aelod unigol o staff cymorth a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

**77.** Tynnodd undeb y PCS a'r Prif Weithredwr sylw at y ffaith nad yw trosglwyddo arian o’r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i gyllidebau staffio'r Aelodau, er mwy ariannu cyflogau staff, yn gynaliadwy o flwyddyn i flwyddyn, oherwydd bod cyllideb y gronfa honno yn cael ei chynyddu gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a'r gyllideb staffio yn unol ag ASHE. Gallai hynny arwain at sefyllfa lle mae cyflogau staff a ariennir yn llawn neu'n rhannol gan gronfeydd a drosglwyddir o’r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i gyllidebau staffio yn dod yn anfforddiadwy dros amser.

**78.** Tynnodd Comisiwn y Senedd sylw at y ffaith y byddai cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn (argostau) yn daladwy ar unrhyw gronfeydd a drosglwyddir i gyllidebau staffio a'u defnyddio i dalu cyflogau staff. Nododd Comisiwn y Senedd mai'r cyfanswm uchaf o gostau

arweiniol a fyddai'n cael eu hysgwyddo pe bai pob un o'r 96 Aelod yn trosglwyddo'r 50% llawn o’u cyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu, i'w cyllideb staffio, fyddai £329k (ar gyfraddau 2025-26). Dylid nodi fodd bynnag fod trosglwyddo 25% o werth y gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu eisoes wedi'i ganiatáu. Y cyfanswm uchaf o gostau ychwanegol a fyddai’n cael eu hysgwyddo pe bai pob un o’r 96 Aelod yn trosglwyddo’r 25% ychwanegol o’r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i’w cyllidebau staffio fyddai £174k (ar gyfraddau 2025-26).

**Trafod yr ymatebion**

**79.** Cytunodd y Bwrdd i gynyddu lefel y trosglwyddiad arian i 50% o gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu, o ystyried y gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig yn ystod yr ymgynghoriad.

**80.** Cydnabu'r Bwrdd y costau ychwanegol posibl a fyddai'n deillio o'r cynnig ar ffurf costau cyflog, ond roedd o'r farn y dylid gwireddu'r hyblygrwydd ychwanegol a ddarperir i Aelodau, ar y cyfan.

**81.** Cydnabu'r Bwrdd, hefyd, y mater a godwyd ynghylch cynaliadwyedd dros amser unrhyw gyflogau staff a ariennir yn llawn neu'n rhannol drwy drosglwyddiad o'r swyddfa etholaethol a'r gyllideb ymgysylltu i gyllidebau staffio. Mae'r Bwrdd wedi nodi'r risg y gallai cyflogau gynyddu ar gyfradd (ASHE) uwch na chwyddiant, a'r effaith bosibl y bydd hyn yn ei chael ar fforddiadwyedd cyflogau staff dros amser. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd o'r farn y gellir lliniaru hyn drwy i Aelodau ystyried y risgiau hyn wrth wneud penderfyniadau ar drosglwyddiadau arian a'r lefelau cyflog ar adeg y trosglwyddiad, a sicrhau bod digon o arian wrth gefn wedi'i gynnwys ar gyfer hyd tymor y Senedd. Mae'r Bwrdd yn nodi bod Comisiwn y Senedd yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i Aelodau ar faterion staffio a rheoli cyllideb.

Canlyniad

Penderfynodd y Bwrdd weithredu'r cynnig i gynyddu'r swm o drosglwyddiad arian a ganiateir gan Aelodau o gyllideb y swyddfa etholaethol ac ymgysylltu i gyllideb staffio o 25% i 50% o werth y gyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu.

### Cynnig Dau:

### Cynyddu terfyn y costau Cychwyn Swyddfa i £6,500 fesul Aelod

#### Cefndir

**82.** Ar hyn o bryd, mae gan aelodau sy'n prydlesu swyddfa etholaethol neu ranbarthol newydd hawl i gyllideb o hyd at £5,000 at ddibenion 'cychwyn' a chyfarparu eu swyddfa â dodrefn, i wneud unrhyw newidiadau bach sydd eu hangen i gynllun y swyddfa, ac i ailaddurno'r swyddfa. Nid yw'r ffigur hwn wedi newid ers 2011.

**83.** Cynigiodd y Bwrdd yn ei ymgynghoriad, Rhan Un – a chyhoeddodd, maes o law – ei fwriad i sicrhau bod y Gyllideb Cychwyn Swyddfa ar gael i bob Aelod ar ddechrau'r Seithfed Senedd, nid yn unig y rhai sy'n prydlesu swyddfa newydd. Cytunwyd ar hyn i gydnabod y bydd y rhan fwyaf o 96 o'r Aelodau o'r Seithfed Senedd yn prydlesu swyddfa newydd, ac y bydd angen cyllid ar Aelodau a ail-etholir sy'n cadw eu swyddfa bresennol, hefyd, i dalu am newidiadau i'w swyddfeydd, gan gynnwys ailosod arwyddion i adlewyrchu enwau etholaethau newydd ar gyfer y Seithfed Senedd.

**84.** Gan ystyried bod rhai Aelodau wedi mynd y tu hwnt i derfyn y Gyllideb Cychwyn Swyddfa ar ddechrau'r Senedd bresennol hon, a chynnydd chwyddiannol ers 2011, cynigiodd y Bwrdd gynyddu terfyn costau Cychwyn Swyddfa y gellid eu hawlio, o £5,000 hyd at £6,500.

#### Crynodeb o'r ymatebion

**85.** Cytunodd grŵp Plaid Cymru a grŵp Llafur Cymru â'r cynigion, fel y gwnaeth yr aelod unigol o staff cymorth a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

**86.** Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai'r Gyllideb Cychwyn Swyddfa fod ar gael i'r Aelodau hynny sydd angen swyddfa newydd yn unig, gan na ddylai fod angen y swm llawn ar Aelodau sy'n dychwelyd, ac sy'n aros yn eu swyddfa bresennol.

**87.** Nododd Comisiwn y Senedd y byddai Cyllidebau Cychwyn Swyddfa cyfunol yr holl 96 Aelod ar y swm uwch hwn yn £624,000, ond y byddai'r gost wirioneddol amcangyfrifedig, ar sail tueddiadau gwariant hanesyddol, tua £349,000. Mae'r cynnydd o £1,500 i'r gyllideb yn gynnydd cyllideb cyffredinol o £144,000 ar gyfer 96 o Aelodau gyda'i gilydd. Bydd y cynnydd gwirioneddol mewn cost yn dibynnu ar faint o ddefnydd y bydd yr Aelodau'n ei wneud o'r gyllideb uwch yn y Seithfed Senedd ac er na ellir rhagweld hyn, mae'n debyg y byddai'r gost wirioneddol yn is na'r cynnydd yn y gyllideb o £144,000.

**Trafod yr ymatebion**

**88.** Nododd y Bwrdd y gefnogaeth glir i'w gynnig.

**89.** Cytunodd y Bwrdd â'r Prif Weithredwr na fyddai Aelodau sy'n dychwelyd ac yn cadw eu swyddfa bresennol yn y Seithfed Senedd, yn wynebu'r un lefel o gostau sefydlu swyddfa ag Aelodau sy'n prydlesu swyddfeydd newydd. Ystyriodd y Bwrdd ei egwyddor o symlrwydd ac egwyddor gwerth am arian, a'r fantais o gynnig llai o swm i Aelodau sy'n aros yn yr un swyddfa.

**90.** Daeth y Bwrdd i'r casgliad ei fod am barhau i ddarparu cyllideb adnewyddu swyddfeydd o hyd at £2,500 i Aelodau sy'n dychwelyd ac sy'n cadw'r un swyddfa yn y Seithfed Senedd, er mwyn iddyn nhw allu adnewyddu eu swyddfeydd, ac ailosod unrhyw arwyddion sy'n arddangos enwau etholaethau cyfredol yn gynnar yn y Seithfed Senedd.

**91.** Nododd y Bwrdd, yng ngoleuni'r cynigion hyn nad oes angen, mwyach, y gyllideb bresennol ar gyfer adnewyddu dodrefn swyddfa, sef £1,000, sydd ar gael i Aelodau sy'n gwasanaethu am drydydd tymor neu fwy, ac felly dylid ei dileu.

Canlyniad

Penderfynodd y Bwrdd i wneud y canlynol:

- Cynyddu'r Gyllideb Cychwyn Swyddfa sydd ar gael i Aelodau sy'n prydlesu swyddfa newydd o hyd at £5,000 i hyd at £6,500;
- darparu Cyllideb Adnewyddu Swyddfa o hyd at £2,500 ar gyfer Aelodau sy'n dychwelyd ac sy'n cadw'r un swydd o'r Chweched i'r Seithfed Senedd, gyda'r cyllid hwn ar gael tan ddiwedd blwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd yn unig;
- Dileu'r gyllideb bresennol ar gyfer adnewyddu dodrefn swyddfa, sef £1,000, ar gyfer Aelodau sy'n gwasanaethu trydydd tymor (neu fwy).

**Cynnig Tri:**

**Holl wariant yr Aelodau ar fesurau iechyd a diogelwch i'w ariannu o'r cronfeydd canolog**

**Cynnig Pedwar:**

**Newid y gofynion ar Aelodau i geisio person cymwys ar gyfer mesurau iechyd a diogelwch**

**Cefndir**

**92.** Mae Adran 6.6 o'r Penderfyniad yn nodi bod y £500 cyntaf sy'n cael ei wario gan Aelod ar fesurau iechyd a diogelwch (yn gronnol) yn cael ei dalu ar hyn o bryd o gyllideb y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr gydag unrhyw wariant uwchlaw'r trothwy hwn i'w dalu o'r cronfeydd canolog. Yn unol â'i egwyddor o symlrwydd, ac er mwyn osgoi cyfyngiad diangen ar wariant yr Aelodau ar fesurau iechyd a diogelwch, cynigiodd y Bwrdd y bydd yr holl wariant iechyd a diogelwch, o ddechrau'r Seithfed Senedd, yn cael ei dalu o gronfeydd canolog.

**93.** Byddai'r cynnig hwn yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Aelodau o fewn eu cyllideb swyddfa etholaethol ac ymgysylltu yn y dyfodol.

**94.** Yn y gorffennol, tynnodd Prif Weithredwr a Chlerc Comisiwn y Senedd sylw'r Bwrdd at yr heriau sydd ynghlwm wrth nodi 'person priodol' (fel arfer, gweithiwr proffesiynol sydd â chymwysterau neu brofiad iechyd a diogelwch perthnasol) a all argymell mesurau iechyd a diogelwch y gellir eu hariannu drwy'r Penderfyniad. Cytunodd y Bwrdd, a theimlai mai'r Aelodau ddylai fod yn gyfrifol am benderfynu a ddylid ceisio cyngor 'personau cymwys' mewn perthynas â gofynion iechyd a diogelwch yr Aelodau, a phryd y dylid gwneud hynny.

**95.** O ganlyniad, cynigiodd y Bwrdd, hefyd, i ddileu'r gofyniad ar yr Aelodau yn y Penderfyniad i benodi 'person priodol' sydd wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr ar gyfer unrhyw fesurau iechyd a diogelwch, a rhoi yn ei le ofyniad i'r Aelodau, ar gyfer unrhyw wariant iechyd a diogelwch dros derfyn o £250, geisio cyngor 'person cymwys', fel y nodir mewn canllawiau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, i adlewyrchu'r gofyniad o dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

**Crynodeb o'r ymatebion**

**96.** Cytunodd grŵp Plaid Cymru a'r aelod unigol o staff cymorth a ymatebodd i'r ymgynghoriad â'r ddau gynnig.

**97.** Cytunodd grŵp Ceidwadwyr Cymru y dylid talu'r holl gostau iechyd a diogelwch o gronfeydd canolog.

**98.** Gwnaeth undeb y PCS sylw y dylid ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth ar aflonyddu rhywiol ac urddas yn y gwaith, fel rhan o ystyriaeth y Bwrdd o ddarpariaethau ar gyfer iechyd a diogelwch.

**99.** Nododd y Prif Weithredwr fod y trothwy o £250 ar wariant iechyd a diogelwch, y dylid ceisio cyngor person cymwys arno, yn ymddangos yn rhesymol. Awgrymodd y Prif Weithredwr, hefyd, y dylai'r Bwrdd roi eglurder i'r Aelodau ynghylch y diffiniad o fesur iechyd a diogelwch.

**Trafod yr ymatebion**

**100.** Nododd y Bwrdd y gefnogaeth i'w gynigion, a chytunodd ei fod yn bwriadu gweithredu'r ddau.

**101.** Ystyriodd y Bwrdd awgrym y Prif Weithredwr ar eglurder a thrafod sut y gellid cyflawni hyn. Daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylid ystyried bod mesur iechyd a diogelwch yn unrhyw un a nodwyd fel bod yn ofynnol o ganlyniad i asesiad risg iechyd a diogelwch a gynhaliwyd ar swyddfa Aelod, yn unol â rheoliadau iechyd a diogelwch ac, at hynny, y dylai geiriad y Penderfyniad gadarnhau'r safbwynt hwn.

**102.** Er eglurder, ystyriodd y Bwrdd y byddai'n ddefnyddiol cadarnhau yn y Penderfyniad y bydd costau unrhyw gyngor sydd ei angen gan bersonau cymwys mewn perthynas â gwariant iechyd a diogelwch uwchlaw £250, a chostau asesiadau iechyd a diogelwch a gynhelir gan Aelodau, yn cael eu talu o gronfeydd canolog, ochr yn ochr â phob cost arall sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Fel ag y nodwyd uchod, cytunodd y Bwrdd, hefyd, i ystyried ailenwi 'cronfeydd canolog' ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd er mwyn rhoi mwy o eglurder a chynorthwyo dealltwriaeth o'i bwrpas.

**103.** Nododd y Bwrdd fod gwaith yn cael ei wneud yn y Senedd i hyrwyddo urddas a pharch yn y gwaith, a bod y Bwrdd wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn, ac mae'n ymwybodol bod y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, hefyd, yn cynnal ymchwiliad i urddas a pharch. Bydd y Bwrdd yn ystyried unrhyw faterion sy'n berthnasol iddo, sy'n codi o'r ymchwiliad. Mae'r Bwrdd o'r farn bod hwn yn fater ar wahân i iechyd a diogelwch, sef ffocws y cynigion a nodir uchod.

### Canlyniad

Penderfynodd y Bwrdd i wneud y canlynol:

- Gweithredu'r ddau gynnig ymgynghori sy'n ymwneud â gwariant iechyd a diogelwch;
- Mewnosod geiriad yn y Penderfyniad i egluro, at ddiben y Penderfyniad, mai mesur iechyd a diogelwch yw unrhyw fesur a nodwyd fel un sy'n ofynnol o ganlyniad i asesiad risg iechyd a diogelwch, a gynhaliwyd ar swyddfa Aelod, yn unol â chyfraith iechyd a diogelwch

# Cymorth staffio ar gyfer Aelodau

**Cynnig Un:**

**Cyflwyno fframwaith cyflogau a graddfeydd teuluoedd swyddi newydd ar gyfer staff cymorth.**

## Cefndir

**104.** Yn ystod tymor y Bwrdd hwn, mae Aelodau, staff cymorth ac undebau llafur wedi codi materion amrywiol yn ymwneud â'r fframwaith cyflogau a graddfeydd ar gyfer staff cymorth a nodir ym Mhenderfyniad y Bwrdd.

**105.** Fel rhan o'i adolygiad thematig o gefnogaeth staffio i Aelodau a gynhaliwyd cyn y Seithfed Senedd, comisiynodd y Bwrdd adolygiad annibynnol, arbenigol o'r fframwaith presennol. Nodwyd dibenion yr adolygiad yn fanwl yn y ddogfen ymgynghori, Rhan Dau, sef:

- Galluogi Aelodau a Grwpiau i roi cyflog teg i Staff Cymorth yr Aelodau a staff Grwpiau'r Senedd;
- ystyried rolau a chyfrifoldebau staff Aelodau a staff grwpiau yng nghyd-destun rolau tebyg yn Senedd y DU, Comisiwn y Senedd a chyrff cymaradwy addas yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn y farchnad gyflogaeth ehangach yng Nghymru;
- ystyried y sgiliau sydd eu hangen a'r amrywiaeth o rolau y gall fod eu hangen i gefnogi Aelodau o'r Senedd a grwpiau gwleidyddol yn y Seithfed Senedd, o ystyried y newidiadau o ran ffyrdd o weithio a diwygio'r Senedd;
- cefnogi Aelodau a Grwpiau i annog amrywiaeth ymhlith Staff Cymorth Aelodau'r Senedd a Staff grŵp;
- galluogi'r Aelodau i recriwtio a chadw staff sydd â'r profiad, y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol; a hefyd
- ystyried cyfleoedd i symleiddio'r fframwaith presennol er mwyn datblygu Penderfyniad symlach, a darparu cydbwysedd priodol rhwng sicrhau gwerth am arian a hyblygrwydd i'r Aelodau.

**106.** Ar ôl ystyried canfyddiadau'r adolygiad, ymgynghorodd y Bwrdd ag Aelodau, staff cymorth ac undebau llafur ynghylch ei fwriad i gomisiynu cymorth allanol arbenigol i ddatblygu fframwaith tâl a graddio newydd ar gyfer staff cymorth yn seiliedig ar y model teuluoedd

swyddi. Cafodd y cynnig ei dderbyn yn dda, ac wedi hynny, comisiynwyd cwmni ymgynghori tâl a graddio Beamans i ymgymryd â'r gwaith hwn.

**107.** Ymgysylltodd Beamans ag Aelodau, staff cymorth ac undebau llafur drwy gydol datblygiad y fframwaith newydd.

**108.** Yng ngoleuni'r gwaith a wnaed gan Beamans, cynigiodd y Bwrdd y fframwaith cyflogau a graddfeydd teuluoedd swyddi newydd canlynol ar gyfer staff cymorth:

| | Cyfathrebu | Ymchwil a Pholisi | Gwaith achos | Rheoli Busnes a Gweinyddiaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Uwch-gynghorydd** | √ | √ | | |
| **Band 1** | √ | √ | √ | √ |
| **Band 2** | √ | √ | √ | √ |
| **Band 3** | √ | √ | √ | √ |

**109.** Cafodd dogfen fframwaith dosbarthu ei chynnwys, sy'n rhoi manylion am nodweddion rolau swyddi ym mhob teulu swyddi. ac ym mhob band cyflog yn y ddogfen ymgynghori, Rhan Dau (gweler Atodiad B).

**110.** Bwriad y Bwrdd yw y bydd yn ofynnol i bob Aelod gyflogi staff yn unol â'r fframwaith tâl a graddio newydd o ddiwrnod cyntaf y Seithfed Senedd, lle mae cyflogau'r staff hynny'n cael eu hariannu o gyllideb staffio'r Aelodau. Yn unol â hynny, byddai'n ofynnol i Aelodau sy'n ceisio cael eu hailethol ddilyn y broses o raddio rolau swyddi i'w cyflogi yn y Seithfed Senedd cyn yr etholiad. Bydd yn ofynnol i'r Aelodau wneud hynny cyn y gallant hawlio unrhyw gyflogau staff, ac felly'r disgwyl yw y bydd staff sy'n parhau i gael eu cyflogi gan yr Aelodau yn cael eu cyflogi yn unol â'r fframwaith newydd o ddiwrnod cyntaf y Senedd newydd.

**111.** Bydd cymorth ar gael i Aelodau gan Gomisiwn y Senedd ar y broses o raddio rolau swyddi yn unol â'r fframwaith tâl a graddio newydd, cyn y Seithfed Senedd. Cynigiodd y Bwrdd ddarparu adnoddau Penderfyniad ychwanegol hyd at £1,275 fesul Aelod i gael cymorth allanol lle bo angen, er enghraifft cymorth allanol arbenigol yn ymwneud â adnoddau dynol neu'r gyfraith, lle na all Comisiwn y Senedd ddarparu cymorth o'r fath, a cheisiodd y Bwrdd adborth ar y cynnig hwn.

**112.** Mae rhagor o wybodaeth am y fframwaith tâl a graddio newydd a'i gymhwysiad gan Aelodau yn y cwestiynau cyffredin.

**Crynodeb o'r ymatebion**

**113.** Roedd grŵp Plaid Cymru yn gefnogol i'r cynigion hyn, yn gyffredinol. Nododd fod llai o wahaniaeth llai rhwng nodweddion rôl yr Uwch Ymgynghorydd a bandiau cyflog Band 1 (fel y'u nodir yn y proffiliau rôl a baratowyd gan Beamans, ac sydd wedi eu cynnwys yn y deunyddiau ymgynghori) nag y sydd rhwng nodweddion bandiau cyflog eraill. Mynegwyd y farn hon, hefyd, gan yr aelod unigol o staff cymorth a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

**114.** At hynny, nododd grŵp Plaid Cymru:

> "*We believe the job families can better define the different workstreams within Members' offices and the expected roles and responsibilities of each staff member on a particular band.*"

**115.** Gwnaeth undeb y PCS sylw bod y fframwaith teuluoedd swyddi newydd arfaethedig yn welliant ar y fframwaith presennol.

**116.** Cytunodd grŵp Llafur Cymru a'r Prif Weithredwr y dylid darparu cefnogaeth ariannol ychwanegol ar gyfer unrhyw gyngor allanol arbenigol sydd ei angen gan Aelodau.

**117.** Mynegodd undeb Unite, grŵp Llafur Cymru a grŵp Plaid Cymru y farn y dylai band cyflog yr Uwch Ymgynghorydd fod yn gymwys i deuluoedd swyddi Gwaith Achos a Rheoli a Gweinyddu Busnes yn ogystal â Pholisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Nododd yr ymatebion y dylid rhoi hyblygrwydd i Aelodau gyflogi gweithwyr achos a rheolwyr busnes ar fand cyflog yr Uwch Ymgynghorydd pe dymunant, a bod gweithwyr achos a rheolwyr busnes yn aml yn staff profiadol â lefelau uchel o gyfrifoldeb.

**118.** Nododd yr ymatebydd unigol nad yw cyfrifoldebau rhai staff yn ffitio'n daclus i mewn i un teulu swyddi, ac nad yw ymgysylltiad cymunedol yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y proffiliau rôl a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Fe wnaethant, hefyd, godi'r cwestiwn a fyddai'r gwaith datblygu polisi a wneir fel arfer gan Uwch Gynghorwyr yn eistedd yn well mewn grwpiau gwleidyddol nag o fewn swyddfeydd Aelodau unigol.

**Trafod yr ymatebion**

**119.** Roedd y Bwrdd yn falch o nodi'r adborth cadarnhaol i'r fframwaith tâl a graddio newydd arfaethedig, yn gyffredinol.

**120.** Ystyriodd y Bwrdd y materion penodol a godwyd mewn perthynas â manylion y fframwaith. Fel y nodwyd gan ymatebwyr, mae llai o wahaniaeth rhwng proffiliau rôl yr Uwch Ymgynghorydd a bandiau cyflog Band 1 nag rhwng bandiau cyflog eraill. Mae hyn yn berthnasol i'r cyflogau arfaethedig ar gyfer y ddau fand cyflog hyn, hefyd. Mae'r fframwaith

newydd wedi'i ddatblygu i adlewyrchu'r mathau o waith, a chymhlethdod y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan staff cymorth, fel y'i nodwyd drwy waith ymchwil manwl Beamans. Mae'r gwahaniaeth llai rhwng nodweddion swyddi a chyflogau'r ddau fand cyflog hyn o'i gymharu â bandiau cyflog eraill, yn adlewyrchu natur y gwaith a wneir gan staff sy'n cael eu cyflogi yn y ddau fand cyflog hyn, ar hyn o bryd.

**121.** Barn y Bwrdd yw bod y fframwaith newydd yn ceisio adlewyrchu'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan staff cymorth, a'i fod yn darparu fframwaith mwy clir a chyson i Aelodau nodi'r band cyflog priodol i'w gymhwyso i bob rôl swydd. Nid yw'r fframwaith newydd yn ceisio newid y gwaith a wneir gan staff cymorth, gan gynnwys lefel y gwahaniaeth rhwng gwaith a wneir gan staff a gyflogir mewn bandiau cyflog penodol.

**122.** Ystyriodd y Bwrdd y sylwadau'n fanwl a wnaed mewn perthynas â band cyflog yr Uwch Ymgynghorydd, a'r teuluoedd swyddi y mae'n berthnasol iddynt.

**123.** Nododd y Bwrdd fod band cyflog yr Uwch Gynghorydd wedi'i gyflwyno yn y Bumed Senedd fel band cyflog ar gyfer rôl benodol i gynghori Aelodau ar bolisi a chefnogi eu gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru, ac mae'n cytuno bod rôl o'r fath yn parhau i fod yn ofynnol gan Aelodau unigol. Nid oedd bwriad i'r band cyflog hwn gael ei gymhwyso i staff sy'n ymgymryd â mathau eraill o waith, er bod y Bwrdd wedi cydnabod, ar y pryd, y gallai hyn ddigwydd weithiau'n ymarferol, oherwydd yr ystod eang o ddyletswyddau a neilltuwyd mewn rhai rolau staff cymorth (a fyddai'n rôl "hybrid"). At hynny, ystyriodd y Bwrdd fod Beamans wedi canfod tystiolaeth gyfyngedig iawn bod Uwch Gynghorwyr yn ymgymryd â gwaith achos a chyfrifoldebau rheoli busnes yn rheolaidd.

**124.** Ar ôl ystyried y mater hwn, daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylai band cyflog yr Uwch Gynghorydd fod yn berthnasol i'r teulu swydd Polisi ac Ymchwil a Chyfathrebu yn unig, gan gydnabod bod gan uwch staff mewn rolau o'r fath lefel uwch o gyfrifoldeb a rolau mwy cymhleth, fel arfer, nag uwch staff sy'n ymgymryd â mathau eraill o rolau.

**125.** Yn sgil yr ymatebion cadarnhaol i'r cynnig i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol o £1,275 i Aelodau er mwyn iddynt allu cael cymorth arbenigol allanol ar gyfer y broses graddio swyddi, cytunodd y Bwrdd i gyflwyno'r ddarpariaeth hon drwy benderfyniad eithriadol ar gyfer 2025-26.

Canlyniad

Penderfynodd y Bwrdd weithredu'r cynigion a nodwyd i gyflwyno fframwaith tâl a graddio newydd ar gyfer staff cymorth, o ddechrau'r Seithfed Senedd.

Cytunodd y Bwrdd i ddarparu swm o hyd at £1,275 o gymorth ariannol ychwanegol yn 2025-26 i bob Aelod sy'n sefyll i gael ei ailethol, er mwyn helpu i baratoi ar gyfer gweithredu'r fframwaith newydd.

**Cynnig Dau:**

**Cyflwyno ystodau cyflog newydd ar gyfer staff cymorth i ddod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd**

**Cynnig Tri:**

**Cynnig diogelu cyflog am 2 flynedd i aelodau o staff a gyflogir ar hyn o bryd ar uchafswm cyflog Band 3, ac sy'n parhau ar Fand 3 ar gyfer y Seithfed Senedd**

**Cefndir**

**126.** Roedd adolygiad thematig y Bwrdd o gefnogaeth staffio i Aelodau yn cynnwys ymarfer cynhwysfawr a gynhaliwyd gan Beamans i gymharu rolau a chyflogau staff cymorth yn erbyn cyflogau rolau cymharol yn y farchnad swyddi. Ar sail yr ymarfer meincnodi manwl hwn, cynigiodd Beamans fandiau cyflog newydd ar gyfer rolau staff cymorth yn y Seithfed Senedd.

**127.** Nodwyd rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed a chanfyddiadau penodol y gwaith meincnodi y ddogfen ymgynghori, Rhan Dau.

**128.** Yn ogystal, argymhellodd Beamans newidiadau i fandiau cyflog i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn y fframwaith presennol. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys llai o orgyffwrdd bandiau, a sefydlu lledau bandiau cyflog cyson o 87.5% – 112.5% yn seiliedig ar y pwynt canol newydd a nodwyd ar gyfer pob band. Argymhellodd Beamans, hefyd, lai o bwyntiau cyflog ym mhob band cyflog, gyda phedwar pwynt cyflog yn cael eu hawgrymu ar gyfer pob band, ac eithrio Band 3 lle argymhellwyd tri phwynt cyflog. Mae'r nifer diwygiedig o bwyntiau cyflog a argymhellir ar gyfer pob band cyflog yn adlewyrchu'r cyfnod o amser y gellir disgwyl yn rhesymol i staff gymhwyso'n llawn (ac felly'r cyflog band cyflog uchaf) yn eu rolau.

**129.** Ar sail y gwaith a wnaed gan Beamans, cynigiodd y Bwrdd y strwythur cyflog newydd canlynol ar gyfer staff cymorth:

| Lefel | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 |
|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth Staff** | £48,987 | £53,652 | £58,317 | £62,982 |
| **Uwch-gynghorydd** | £41,055 | £44,965 | £48,874 | £52,784 |
| **Band 1** | £37,583 | £41,163 | £44,743 | £48,322 |
| **Band 2** | £31,802 | £34,831 | £37,859 | £40,887 |
| **Band 3** | £25,211 | £28,812 | £32,414 | Amherthnasol |

**130.** Er y byddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio'n gadarnhaol ar gyflogau mwyafrif y staff cymorth presennol, cydnabu'r Bwrdd y byddai staff Band 3 sy'n parhau â'u gwasanaeth i'r Seithfed Senedd ym Mand 3 yn profi gostyngiad yn y pwynt cyflog uchaf ar gyfer eu band, o'r £33,706 presennol (yn 2025-26) i £32,414.

**131.** Er mwyn lliniaru effeithiau'r newid hwn, cynigiodd y Bwrdd i drefniant diogelu cyflog am hyd at ddwy flynedd i'r staff hynny sydd ar Bwynt Cyflog 5 ar ddiwedd tymor y Senedd, ac i gostau'r trefniant diogelu cyflog hwn gael eu talu o gronfeydd canolog. Mae rhagor o fanylion am oblygiadau'r gostyngiad cyflog hwn, nifer y staff cymorth y mae'n debygol y byddent yn cael eu heffeithio a'r trefniant diogelu cyflog a gynigiwyd gan y Bwrdd, wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori, Rhan Dau, ac yn y cwestiynau cyffredin a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad.

**Crynodeb o'r ymatebion**

**132.** Gwnaeth grŵp y Ceidwadwyr Cymreig sylw nad yw cyflogau uwch a ddarperir o fewn y fframwaith arfaethedig tâl a graddio newydd yn gystadleuol â chymharwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac na fyddai'r cyflogau arfaethedig yn ddigonol i ganiatáu i Aelodau a grwpiau gyflogi a chadw staff profiadol o'r ansawdd uchaf.

**133.** Nododd undeb Unite fod rolau staff cymorth yn cael eu tanbrisio o'u cymharu â chymheiriaid mewn sefydliadau eraill ac yng Nghomisiwn y Senedd, a bod gwaith Beamans yn canolbwyntio ar gyflog yn unig, nid ffactorau eraill fel pensiynau, diffyg datblygiad gyrfa neu ansefydlogrwydd swydd. Awgrymodd Unite y dylid cyhoeddi cost gwaith Beamans.

**134.** Roedd undeb y PCS, grŵp Plaid Cymru a'r ymatebydd unigol i gyd yn anghytuno â'r gostyngiad arfaethedig i'r cyflog uchaf ym Mand 3.

**135.** Croesawodd grŵp Plaid Cymru y gostyngiad yn nifer y pwyntiau cyflog fesul band cyflog. Roedd yr aelod unigol o staff cymorth yn anghytuno â'r gostyngiad o bedwar i dri phwynt cyflog ar gyfer Band 3.

**136.** Nododd grŵp Llafur Cymru a'r ymatebydd unigol eu bod yn cytuno â'r trefniadau arfaethedig o ran diogelu cyflog. Dadleuodd undeb y PCS a grŵp Plaid Cymru na fydd y diogelwch arfaethedig o ran cyflog yn darparu'r gydnabyddiaeth o wasanaeth parhaus a ddylai fod ar waith i staff cymorth. Dadleuodd undeb Unite na ddylai fod unrhyw golled mewn cyflog na statws i staff cymorth, ac nad yw dwy flynedd o ddiogelwch cyflog yn ddigon.

**137.** Nododd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig, hefyd, nad yw'r fframwaith arfaethedig newydd ar gyfer tâl a graddio yn darparu bandiau cyflog ar gyfer swyddi uwch grŵp fel Penaethiaid Ymchwil a Chyfathrebu, Cyfarwyddwyr Strategaeth neu Ddirprwy Benaethiaid Staff.

**138.** Nododd Comisiwn y Senedd y bydd costau cyflog newydd amcangyfrifedig, a chost diogelu cyflog, yn cael eu hystyried yng ngwaith cynllunio cyllideb y Comisiwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**Trafod yr ymatebion**

**139.** Wrth fyfyrio ar y sylwadau ynghylch pa mor gystadleuol yw’r y cyflogau newydd arfaethedig o'i gymharu â'r cyflogau a delir am rolau tebyg mewn mannau eraill, ystyriodd y Bwrdd fod y gwaith meincnodi cyflogau a lywiodd y cynigion yn gynhwysfawr, ac yn ystyried data ar gyflogau nifer sylweddol o rolau cymharol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, seneddau eraill a Chomisiwn y Senedd.

**140.** Nododd y Bwrdd fod cynnydd cyflog blynyddol staff cymorth trwy bwyntiau cyflog eu band cyflog yn golygu bod yr holl staff cymorth yn cyrraedd cyflog uchaf eu band cyflog dros amser. Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod staff a gyflogir mewn rhai sefydliadau eraill, gan gynnwys Seneddau'r DU a Senedd yr Alban, fel arfer yn cael cyflogau penodol, ac nad ydynt yn esgyn yn awtomatig drwy'r band cyflog dros amser. Mae Aelodau Seneddol ac Aelodau o Senedd yr Alban yn pennu cyflog penodol ar gyfer y rolau y maen nhw'n eu cyflogi, o fewn ystodau cyflog a bennir gan IPSA a Chorff Corfforaethol Senedd yr Alban, ac nid oes mecanwaith ar gyfer cynnydd awtomatig i fyny trwy'r ystodau cyflog dros amser.

**141.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod y bydd gostwng uchafswm band cyflog Band 3 yn effeithio ar nifer gyfyngedig o staff cymorth, gan gynnwys y rheini nad ydynt wedi cyrraedd yr uchafswm presennol cyn diwedd y Senedd hon. Fodd bynnag, mae'r newid yn seiliedig ar feincnodi, ac yn sicrhau bod y cyflogau’n alinio â chyfraddau'r farchnad ar gyfer rolau o gymhlethdod a chyfrifoldeb tebyg. Byddai cadw'r uchafswm presennol yn tanseilio'r nod o gynnal strwythur cyflog teg a chyson, er enghraifft drwy beri anghysondeb o ran lled y bandiau cyflog (gan

effeithio felly ar lefel y gwahaniaeth mewn cyflog rhwng y ddau fand cyflog isaf), yn ogystal â cholli aliniad band cyflog Band 3 â chyfraddau'r farchnad.

**142.** O ran y sylwadau a wnaed ynghylch cwmpas yr adolygiad sy'n canolbwyntio ar gyflog yn unig, mae'r Bwrdd yn adolygu'r cynllun pensiwn staff cymorth yn rheolaidd, y mae ei delerau'n ffafriol o'i gymharu â chynlluniau pensiwn staff Aelodau Seneddol ac Aelodau o Senedd yr Alban, a chynlluniau cymharol eraill yn y sector preifat a'r trydydd sector. Nid yw staff cymorth yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil sydd ar gael i staff Comisiwn y Senedd.

**143.** Roedd costau gwaith Beamans, heb gynnwys TAW, yn £52,700 ar gyfer adolygu'r fframwaith cyflog a graddio presennol ar gyfer staff cymorth a £43,710 ar gyfer datblygu fframwaith newydd; roedd y gwaith hwn yn cynnwys ymchwil, ymgysylltu ag Aelodau a staff, paratoi a phrofi'r fframwaith newydd, cyngor i'r Bwrdd ar faterion tâl a graddio, meincnodi cyflogau a chynhyrchu adroddiad adolygu, fframwaith Teuluoedd Swyddi drafft, templedi disgrifiadau swyddi drafft a chanllawiau cam wrth gam i Aelodau.

**144.** Croesawodd y Bwrdd yr adborth a gafwyd ar y gostyngiad arfaethedig i nifer y pwyntiau cyflog fesul band cyflog, a'r gydnabyddiaeth y bydd hyn o fudd i'r holl staff cymorth drwy sicrhau eu bod yn cyrraedd uchafswm eu band cyflog o fewn cyfnod byrrach o amser, gan gynnwys staff a gyflogir ym Mand 3 a fydd yn cyrraedd uchafswm y band o fewn tair blynedd o gyflogaeth.

**145.** Cafodd y Bwrdd gyngor na ddylai trefniant diogelu cyflog bara mwy na dwy flynedd, yn unol ag arfer mewn sefydliadau eraill. Mae diogelu cyflog yn caniatáu i staff presennol gadw eu cyflogau presennol dros dro, tra bod staff newydd yn cael eu talu ar y gyfradd ddiwygiedig. Er bod modd cyfiawnhau gwahaniaethau tymor byr, mae'n anoddach cyfiawnhau anghydraddoldebau tymor hir. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y fframwaith newydd tâl a graddio a'r teuluoedd swyddi, y bandiau cyflog a'r cyflogau arfaethedig yn cwmpasu'r ystod lawn o fathau a lefelau o gyfrifoldebau a neilltuir fel arfer i rolau staff cymorth (fel y'u nodwyd trwy waith Beamans), gan gynnwys y rolau grŵp uwch y cyfeiriwyd atynt mewn ymateb i'r ymgynghoriad ac a nodwyd uchod. Ni fyddai'n ymarferol i'r fframwaith ddarparu ystod cyflog ar gyfer pob rôl unigol a gyflogir gan Aelodau a grwpiau, a'r dull teuluoedd swyddi (a ddefnyddir yn Senedd y DU a Senedd yr Alban) sy'n cael ei ffafrio. Mater i'r Aelodau (ac mewn perthynas â rolau grŵp, arweinwyr y pleidiau) yw penderfynu ar y teulu swyddi, y band cyflog a'r cyflog priodol ar gyfer pob rôl, ar sail nodweddion rolau a chymhlethdod, a lefel cyfrifoldeb rolau, gan gynnwys rolau penodol y grwpiau uwch a amlygwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

**146.** Cydnabu'r Bwrdd yn yr ymgynghoriad, Rhan Dau, fod y gostyngiad arfaethedig i'r cyflog uchaf ar gyfer band cyflog Band 3 yn debygol o gael effaith andwyol ac anghymesur ar

fenywod a phobl anabl. Er gwaethaf y gostyngiad yn y lefel cyflog uchaf, bydd staff sy'n cael eu cyflogi ar fand cyflog Band 3 yn symud trwy'r pwyntiau cyflog i'r uchafswm yn gyflymach, yn ystod cyfnod o ddwy flynedd yn hytrach na'r cyfnod pedair blynedd presennol. Byddant, hefyd, yn cael codiannau/cynnydd cyflog blynyddol mwy na'r fframwaith presennol gan fod Band 3 yn cynnwys tri phwynt cyflog yn hytrach na'r pump presennol. Nododd dogfen ymgynghori Rhan Dau y Bwrdd yr ymgynghorwyd â staff yr effeithiwyd arnynt 12 mis cyn i'r newidiadau arfaethedig gael eu cyflwyno o bosibl. Er mwyn lliniaru effaith y gostyngiad yn y pwynt cyflog uchaf ar gyfer y rheini sy'n cael y cyflog hwnnw ar ddiwedd tymor y Chweched Senedd, bydd y Bwrdd yn rhoi rhybudd o 24 mis o'r trefniant diogelu cyflog drwy'r Penderfyniad; mater i'r Aelodau, fel cyflogwyr, yw cymhwyso'r fframwaith tâl a graddio newydd i'r rolau presennol ac i ymgynghori â staff y gellir effeithio arnynt o ddechrau'r Seithfed Senedd.

**147.** Barn y Bwrdd yw bod y newidiadau arfaethedig i fandiau cyflog staff cymorth wedi'u llywio gan feincnodi cymharol cyflogau ar gyfer rolau tebyg mewn mannau eraill, a bod y camau arfaethedig yn angenrheidiol er mwyn cyflawni amcanion datganedig y fframwaith tâl a graddio newydd sydd wedi cael cefnogaeth eang.

**148.** Bydd mwyafrif y staff yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol gan gynigion y Bwrdd i gynyddu'r pwyntiau cyflog uchaf ar gyfer Bandiau 2, 1, Uwch Ymgynghorydd a Phennaeth Staff, ac mae'r data staffio yn dangos bod tua 56% o weithwyr ar draws y bandiau hyn yn fenywod.

**149.** Cyhoeddodd y Bwrdd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, o'i holl gynigion ar gyfer y Seithfed Senedd (ar gael yma).

Canlyniad

Cytunodd y Bwrdd y byddai cyflogau'r Staff Cymorth fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori, Rhan Dau (paragraff 129 uchod) yn gymwys o ddechrau'r Seithfed Senedd (yn amodol ar gynnydd sy'n hafal i gyfradd mynegai ASHE Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025).

Cytunodd y Bwrdd i gynnig trefniant diogelu cyflog o hyd at ddwy flynedd i staff a gyflogir ar uchafswm cyflog Band 3 ar ddiwedd y Chweched Senedd ac sy'n parhau ar Fand 3 gyda'r un Aelod cyflogi ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Cynnig Pedwar:

## Cadw'r fformiwla bresennol ar gyfer cyfrifo Cyllideb Staffio'r Aelodau

### Cefndir

**150.** Cyfrifir cyllideb staffio'r Aelodau ar sail casgliad o'r tri phwynt cyflog uchaf o'r tri band uchaf o fewn fframwaith cyflogau a graddfeydd staff yr Aelodau, a nodir ym Mhennod 7 o'r Penderfyniad. Cyllideb staffio'r Aelodau ar gyfer 2025-26 yw £138,438.

**151.** Byddai'r bandiau cyflog newydd arfaethedig yn rhoi cynnydd bach yn y gyllideb staffio i'r Aelodau. Gan ddefnyddio ffigurau 2025-26 fel cymharydd a'r fethodoleg bresennol, cyllideb staffio'r Aelodau yn seiliedig ar gyflogau'r fframwaith newydd fyddai £141,993. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o tua 2.6% yn y gyllideb.

**152.** Eglurwyd y rhesymeg dros gynnig y Bwrdd i gadw'r fformiwla cyllideb staffio bresennol yn y ddogfen ymgynghori, Rhan Dau. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol y bydd y newidiadau sy'n deillio o ddiwygio'r Senedd, ac ehangu'r Senedd yn benodol, yn arwain at gostau ychwanegol sylweddol. Mae'r Bwrdd yn bwriadu adolygu gofynion cymorth staffio a chyllidebau yn ystod y Seithfed Senedd, unwaith y bydd effeithiau etholaethau newydd, busnes y Senedd, a newidiadau i Gymorth i Grwpiau'r Senedd yn gliriach.

### Crynodeb o'r ymatebion

**153.** Awgrymodd grŵp Plaid Cymru nad yw cyllideb staffio'r Aelodau, ar hyn o bryd, yn caniatáu ar gyfer cyflogi'r ystod lawn o sgiliau sydd eu hangen ar Aelodau.

**154.** Cyfeiriodd undeb y PCS a grŵp Plaid Cymru ill dau at ddatgysylltiad rhwng y pedwar teulu swyddi arfaethedig, a'r gyllideb staffio sy'n darparu ar gyfer tri chyfwerth ag amser llawn yn unig. Fe wnaethant nodi, hefyd, y gallai'r lefel gyllideb arfaethedig arwain at drefniadau staffio 'creadigol' a allai arwain at broblemau Adnoddau Dynol posibl e.e. diffyg atebolrwydd rheolwyr llinell.

**155.** Dywedodd undeb Unite nad yw'r gyllideb staffio arfaethedig yn ddigonol i ariannu'r newidiadau arfaethedig.

### Trafod yr ymatebion

**156.** Nododd y Bwrdd y sylwadau a gafwyd, sy'n adlewyrchu sylwadau blaenorol gan Aelodau, grwpiau a staff cymorth y dylid cynyddu cyllideb staffio'r Aelodau, gyda chyfeiriadau'n aml yn cael eu gwneud at y cyllidebau staffio uwch sydd ar gael i Aelodau Seneddol.

**157.** Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, bydd y Bwrdd yn ystyried a ddylid adolygu'r gyllideb unwaith y bydd effeithiau diwygio'r Senedd a datblygiadau eraill a allai effeithio ar waith yr Aelodau wedi'u deall yn well.

**158.** Mae'r pedwar teulu swyddi a nodwyd gan Beamans yn adlewyrchu'r mathau o waith a wneir fel arfer gan staff cymorth, ac yn darparu fframwaith er mwyn helpu i nodi'r lefel a'r cyflog priodol i'w neilltuo i rolau swyddi staff. Nid yw'r Bwrdd yn nodi ei bod yn ofynnol i Aelodau gyflogi'r ystod lawn o rolau a nodir yn y pedwar teulu swyddi ond yn hytrach, bod y teuluoedd swyddi hyn yn adlewyrchu'r rolau a gyflogir, fel arfer, gan Aelodau. Nid yw pob Aelod yn cyflogi staff ym mhob un o'r teuluoedd swyddi; er enghraifft, prif ffocws rhai Aelodau yw eu gwaith o fewn y Senedd ac efallai y bydd y gefnogaeth sydd ei hangen yn bennaf ym maes polisi ac ymchwil, tra bod gan Aelodau eraill fwy o bwyslais ar eu gwaith etholaethol, a bydd eu blaenoriaethau staffio yn bennaf ar waith achos a chyfathrebu. Mae'r ystod o rolau a nodir yn y pedwar teulu swyddi yn adlewyrchu'r ystod lawn o fathau o waith a wneir yn rheolaidd gan staff ar hyn o bryd, ond ni chafwyd unrhyw awgrym y dylai pob Aelod gyflogi staff ym mhob un o'r teuluoedd swyddi.

**159.** Er bod y fformiwla ar gyfer cyfrifo cyllideb yr Aelodau yn seiliedig ar gyflogau uchaf tair swydd gyfwerth ag amser llawn, mae hwn yn fecanwaith ar gyfer pennu swm y gyllideb, ac ni fwriedir iddo adlewyrchu nifer y staff y dylai Aelodau eu cyflogi, neu y maent yn eu cyflogi. Fel y nodir ar dudalen 19 o’r papur tystiolaeth hwn o ran defnyddio cyllideb staffio'r Aelodau, mae cyfran sylweddol o'r Aelodau'n cyflogi mwy na thri aelod o staff. Mae gosod y gyllideb ar sail y tri chyflog uchaf o fewn fframwaith tâl a graddio staff yr Aelodau yn cynnig hyblygrwydd i gyflogi mwy na thri aelod o staff, ar gyflogau heblaw'r cyflogau uchaf ar gyfer y tri band cyflog uchaf.

Canlyniad

Penderfynodd y Bwrdd gadw'r fformiwla bresennol ar gyfer cyfrifo cyllideb staffio’r Aelodau.

## Cynnig Pump:

## Dileu’r Lwfans Gweithio Gartref o ddechrau’r Seithfed Senedd ymlaen

### Cefndir

**160.** Ymgynghorodd y Bwrdd ar ddileu'r lwfans Gweithio Gartref yn ei Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad 2024-25, gan fod y lwfans wedi'i gyflwyno'n benodol at ddiben cefnogi staff i weithio gartref pan oedd hynny’n orfodol, a chan fod sefydliadau eraill wedi dileu'r lwfans ar ôl Covid.

**161.** Yng ngoleuni pryderon a godwyd y byddai dileu'r lwfans yn effeithio'n anghymesur ar staff cymorth a oedd yn gweithio'n bennaf neu'n gyfan gwbl o gartref oherwydd eu hamgylchiadau personol, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig, penderfynodd y Bwrdd beidio â dileu'r lwfans ar y pryd gan nodi ei fwriad i adolygu darpariaeth y lwfans hwn cyn y Seithfed Senedd.

**162.** Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'r Bwrdd wedi cynnal asesiad o effaith dileu'r lwfans ar y rhai â nodweddion gwarchodedig. Ar sail y data a gasglwyd gan y Bwrdd, roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd, ac a ddywedodd eu bod yn cael y Lwfans Gweithio Gartref, yn nodi eu bod yn fenywod, gyda rhai gofalwyr a staff anabl, hefyd, yn cael y lwfans.

**163.** Er ei fod yn cydnabod y gallai cael gwared ar y lwfans gael effaith anghymesur, o bosibl, ar staff â'r nodweddion gwarchodedig hyn, nid yw'r Bwrdd yn gweld unrhyw gyfiawnhad dros gadw'r lwfans y tu hwnt i ddiwedd y Senedd hon, gan y gallai'r rhai na allant weithio yn unman heblaw am adref fod yn gymwys i gael rhyddhad treth ‘gweithio gartref’ CThEF.

### Crynodeb o’r ymatebion

**164.** Cytunodd grŵp Ceidwadwyr Cymru a'r ymatebydd unigol â'r cynnig.

**165.** Awgrymodd grŵp Plaid Cymru y dylid cadw'r lwfans ar gyfer staff sydd ond yn gallu gweithio gartref.

**166.** Nododd y Prif Weithredwr fod dull arfaethedig y Bwrdd yn ymddangos yn gymesur ac yn gyson â'i egwyddor o benderfyniadau yng nghyd-destun enillion Cymru, ac amgylchiadau ariannol Cymru.

**167.** Nododd undeb y PCS y dylid cynnal asesiad effaith mwy manwl ar gydraddoldeb.

### Trafod yr ymatebion

**168.** Nododd asesiad effaith cydraddoldeb y Bwrdd y gallai dileu'r Lwfans Gweithio Gartref effeithio'n anghymesur ar staff cymorth benywaidd, a bydd rhai gofalwyr a staff cymorth anabl hefyd yn cael eu heffeithio.

**169.** Cyflwynwyd y ddarpariaeth Lwfans Gweithio Gartref yn ystod pandemig Covid-19 i ddiwallu amgylchiadau ac anghenion penodol gweithwyr ar y pryd; mae amgylchiadau iechyd y cyhoedd a chyflogaeth wedi newid ers hynny, ac nid oes angen i staff weithio gartref mwyach. Mae cynigion y Bwrdd i ddileu'r ddarpariaeth yn gyson â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, a ddileodd y ddarpariaeth lwfans gweithio gartref sawl blwyddyn yn ôl.

**170.** Mae'r cynnig hwn wedi bod yn destun dau ymgynghoriad, yn ystod y broses Rhan Dau ac yn ystod yr adolygiad blynyddol 2024-25. Cyhoeddodd y Bwrdd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, o'i holl gynigion ar gyfer y Seithfed Senedd (ar gael yma).

**171.** Mae'r Bwrdd wedi nodi, hefyd, bod gan unigolion yr effeithir arnynt, a'r Aelodau sy'n eu cyflogi, rybudd o 12 mis i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol, a gall rhai staff yr effeithir arnynt fod yn gymwys i gael rhyddhad treth 'gweithio gartref' CThEF.

Canlyniad

Penderfynodd y Bwrdd ddileu'r Lwfans Gweithio Gartref o ddechrau'r Seithfed Senedd.

### Materion eraill a godwyd

**172.** Codwyd nifer o faterion yn ymwneud â chymorth staffio i Aelodau gan ymatebwyr nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â chynigion yr ymgynghoriad.

**173.** Dadleuodd undeb y PCS, grŵp Llafur Cymru a grŵp Plaid Cymru dros gydnabod gwasanaeth yn y gorffennol drwy gyflogaeth Aelod gwahanol, wrth asesu neu gyfrifo cymhwysedd staff cymorth ar gyfer rhai hawliau. Cyfeiriwyd at y darpariaethau a gyflwynwyd yn ddiweddar gan IPSA i gydnabod gwasanaeth yn y gorffennol mewn perthynas â hawl staff Aelodau Seneddol i dâl diswyddo a thâl rhieni.

**174.** Cododd undeb y PCS y pwyntiau canlynol:

- Dylid cynnal asesiad trylwyr o effaith cydraddoldeb, yn enwedig ar faterion cyflog a rhywedd;

- mae cydamseru mynegeio cyflogau Aelodau a staff yn parhau i fod yn gwbl afresymol;

- mae angen mesurau i sicrhau na ellir diswyddo staff sydd ar absenoldeb mamolaeth neu salwch hirdymor yn ystod eu cyfnod absenoldeb.

**175.** Awgrymodd grŵp Plaid Cymru y pwyntiau canlynol:

- Dylai'r Bwrdd ystyried sefydlu mynediad at gymorth Adnoddau Dynol i Aelodau/Grwpiau y tu hwnt i'r gwasanaeth a ddarperir gan Gymorth Busnes i Aelodau, a byddai grŵp Plaid Cymru yn hapus i archwilio'r posibilrwydd o rannu adnoddau at y diben hwn;

- dylai'r Penderfyniad ganiatáu ar gyfer arferion blaengar megis interniaethau, secondiadau, cyfnodau sabothol neu absenoldeb di-dâl;

- dylai'r Bwrdd adolygu pensiynau staff ac alinio cyfraniadau cyflogwyr â'r rheini a wneir i gynlluniau pensiwn eraill y sector cyhoeddus.

**Trafod yr ymatebion**

**176.** Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, Rhan Dau ac mewn adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn, cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb o gynigion y Bwrdd ac mae nifer o liniariadau, lle bo modd, wedi'u cyflwyno. Er enghraifft, y cyfnod arfaethedig o ddiogelwch cyflog ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi ar y pwynt cyflog uchaf o Fand 3. Mae'r asesiad effaith ar gydraddoldeb wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â phenderfyniadau terfynol y Bwrdd.

**177.** Nid yw mynegeio cyflogau Aelodau a staff wedi'i gydamseru'n fwriadol. Mae'r Bwrdd wedi adolygu mynegeion posibl yn rheolaidd ar gyfer addasu cyflogau Aelodau a staff i adlewyrchu newidiadau yn economi Cymru, ac mae'n parhau i fod o'r farn mai'r Arolwg Blynyddol o Enillion Cartrefi a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r mynegai mwyaf priodol i'w ddefnyddio o ran cyflogau Aelodau a staff, yn enwedig gan mai dyma'r unig ffynhonnell ddata ar gyflogau sy'n benodol i Gymru.

**178.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod awgrymiadau ynghylch telerau ac amodau staff cymorth, gan gynnwys cydnabod gwasanaeth yn y gorffennol, newidiadau pensiwn, ac opsiynau fel interniaethau, secondiadau neu absenoldeb heb dâl. Bydd y Bwrdd yn ystyried rhai telerau ac amodau Staff Cymorth yn y dyfodol, a bydd yn ymgysylltu â staff cymorth ac Aelodau i archwilio newidiadau posibl a'u goblygiadau.

**179.** Nid yw staff sydd ar absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb salwch hirdymor wedi'u diogelu gan y gyfraith rhag cael eu diswyddo yn ystod eu cyfnod o absenoldeb. Mae rhai

amddiffyniadau statudol yn bodoli, er enghraifft bod y rheini sydd ar gyfnod o absenoldeb o'r fath yn flaenoriaethau ar gyfer adleoli lle bo modd. Ni fyddai'n ymarferol i'r Bwrdd, fodd bynnag, ei gwneud yn ofynnol i Aelodau barhau i gyflogi staff ar absenoldeb mamolaeth neu salwch, er enghraifft yn dilyn yr Aelod yn colli ei sedd. Nid yw Aelodau’n gymwys i ddefnyddio eu cyllideb staffio ar ôl diwedd eu tymor yn y swydd, ac felly ni fyddent mewn sefyllfa i allu parhau i gyflogi staff sydd ar wyliau am resymau penodol.

**180.** Mae Comisiwn y Senedd yn ystyried y gefnogaeth i'w darparu i Aelodau mewn perthynas â gweithredu'r fframwaith tâl a graddio newydd ac, fel y nodir uchod, mae’n fwriad gan y Bwrdd i ddarparu cefnogaeth ariannol ychwanegol i Aelodau er mwyn ariannu unrhyw gefnogaeth allanol arbenigol sydd ei hangen y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd.

# Cymorth i Grwpiau'r Senedd

**Cefndir**

**181.** Ymgynghorodd y Bwrdd ar gynigion i ddisodli'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol presennol gyda chynllun diwygiedig o ran Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn ystod ei ymgynghoriad, Rhan Un. Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn bwriadu gweithredu cynigion grŵp y Senedd fel y'u nodir yn yr adroddiad, Rhan Un.

**182.** Mae'r Bwrdd yn ystyried bod Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn rhoi adnoddau i Grwpiau fel y'u diffinnir yn y Rheolau Sefydlog ddarparu gweinyddiaeth a chydgysylltu canolog, cymorth ar gyfer gwaith craffu, ymchwil a datblygu polisïau sy'n ymwneud â dyletswyddau'r Aelodau, cymorth cyfathrebu, cymorth bugeiliol a llesiant, offer a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â staffio, gwasanaethau a gomisiynir yn allanol, yn ogystal â gweithredu swyddfa grŵp.

**183.** Cynigiodd y Bwrdd fformiwla fesul Aelod ar gyfer dosbarthu Cymorth i Grwpiau'r Senedd, a fyddai'n lleihau wrth i grwpiau gynyddu o ran maint, ac yn cymhwyso gostyngiad i grwpiau a gynrychiolir yn y llywodraeth, er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r adnoddau'n cael eu darparu i grwpiau anllywodraethol. Mae'r fformiwla y cytunwyd arni fel a ganlyn:

| Haen | Cyfradd fesul Aelod Grŵp anllywodraethol | Cyfradd fesul Aelod Grŵp a gynrychiolir yn y llywodraeth (wedi'i ostwng 75% o'i gymharu â grwpiau anllywodraethol) |
|---|---|---|
| **5 Aelod cyntaf** | 100% | 25% |
| **6-39 o Aelodau** | 50% | 12.5% |
| **40+ o Aelodau** | 25% | 6.25% |

**184.** Cynhwysodd y Bwrdd gyfradd 'bloc adeiladu' dangosol fesul Aelod o £55,000 at ddibenion yr ymgynghoriad, Rhan Un, er mwyn dangos y dyraniad a'r dosbarthiad posibl o adnoddau cymorth grŵp. Gofynnodd y Bwrdd, hefyd, am farn ar oblygiadau'r fformiwla arfaethedig ar grwpiau a allai gael eu cynrychioli yn y llywodraeth ac, yn benodol, trefniadau clymblaid.

**185.** Nododd y Bwrdd y byddai'n cwblhau'r symiau cyllid arfaethedig fesul Aelod fesul grŵp, a'r goblygiadau i grwpiau mewn llywodraeth glymblaid yn dilyn yr ymgynghoriad, Rhan Dau.

**Trafod yr ymatebion**

**186.** Er nad oedd y Bwrdd wedi cynnwys cynigion ynghylch Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn y ddogfen ymgynghori, Rhan Dau, ailbwysleisiodd grŵp Plaid Cymru y safbwyntiau a gyflwynwyd ganddo'n flaenorol ar 'gyllidebau grŵp' a bod angen mwy o hyblygrwydd i roi gwell cydnabyddiaeth i natur wirioneddol gwaith arbenigol pleidiau seneddol.

**187.** Mae'r Bwrdd o'r farn bod 'diben' Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn darparu eglurder a hyblygrwydd, ac wedi ehangu cwmpas y cymorth o'i gymharu â'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol presennol. Mae'r Bwrdd, hefyd, wedi nodi o'r blaen mai darparu cefnogaeth i "grwpiau gwleidyddol" yn unig o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yw swyddogaethau a phwerau'r Bwrdd, yn hytrach na phleidiau gwleidyddol.

**188.** Ystyriodd y Bwrdd hefyd y costau y byddai Cymorth Grŵp y Senedd yn eu darparu. sy'n ymwneud â staffio a gwasanaethau a gomisiynwyd yn allanol, fel y nodir yn y pwrpas diwygiedig. Er bod y Bwrdd yn ceisio rhoi hyblygrwydd i Aelodau a Grwpiau drefnu eu swyddfeydd neu gymorth busnes i ddiwallu eu hanghenion, roedd y Bwrdd yn parhau i fod o'r farn y dylid defnyddio'r Cymorth i Grwpiau'r Senedd, yn bennaf, i gyflogi staff, gydag unrhyw gyllid sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio, fel sy'n wir ar hyn o bryd, ar gyfer cymorth allanol megis datblygu polisïau neu ymchwil.

**Penderfyniadau'r Bwrdd: cyfradd fesul Aelod ac ystyriaethau o ran clymbleidiau**

**189.** Mae'r Bwrdd wedi nodi bod y Pwyllgor Busnes yn cynnal adolygiad o'r Rheolau Sefydlog gan gynnwys y trothwy ar gyfer grwpiau gwleidyddol. Daeth adroddiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol i'r casgliad y dylid cynyddu maint y grwpiau gwleidyddol o dri, ac y dylid ystyried ffigur o rhwng pump a deg Aelod.

**190.** Roedd modelu a chynigion gwreiddiol y Bwrdd yn Rhan Un wedi'u seilio ar grwpiau gwleidyddol sy'n cynnwys o leiaf dri Aelod, yn gyson â'r Rheolau Sefydlog cyfredol. Fodd bynnag, yng ngoleuni argymhelliad Pwyllgor Senedd y Dyfodol i gynyddu'r trothwy maint grŵp gwleidyddol ac adolygiad parhaus y Pwyllgor Busnes, mae'r Bwrdd wedi seilio ei benderfyniad ar dybiaeth weithredol o grŵp gwleidyddol ar ben isaf ystod Pwyllgor Senedd y Dyfodol (h.y. 5 Aelod).

**191.** Mae cynigion y Bwrdd ar gyfer fframwaith tâl a graddio newydd wedi gweld cynnydd yn uchafswm pwyntiau cyflog sawl band cyflog, gan gynnwys rôl y Pennaeth Staff, sef rôl sy'n berthnasol i grwpiau'r Senedd yn unig.

**192.** Mae modelu'r dosbarthiad a chyfanswm costau'r Cymorth i Grwpiau'r Senedd yn heriol o ystyried nifer y grwpiau a allai fod yn gymwys i gael y Cymorth i Grwpiau'r Senedd, a'r ffaith y bydd maint y grwpiau hynny, a bod maint a/neu nifer y grwpiau a gynrychiolir yn y llywodraeth yn cael eu pennu gan ganlyniad etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.

**193.** Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi modelu amrywiaeth o senarios ar sail gwahanol feintiau grwpiau a chyfuniadau o grwpiau llywodraeth, ac mae'r Bwrdd o'r farn bod £60,000 yn 'floc adeiladu' priodol fesul Aelod, a fyddai'n darparu adnodd cymesur a digonol i grwpiau o wahanol feintiau i gyflogi staff sy'n angenrheidiol i gefnogi dibenion y Cymorth i Grwpiau'r Senedd.

Canlyniad

Mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd y gyfradd graidd fesul Aelod ar gyfer dechrau'r Seithfed Senedd yn cael ei gosod ar £60,000.

Bydd y gyfradd fesul Aelod yn cael ei haddasu o 1 Ebrill 2027 ac yna bob blwyddyn yn ôl y newid yn yr ASHE a gyhoeddwyd yn y mis Tachwedd blaenorol.

.

**194.** Er mwyn darparu cyd-destun cymharol, modelodd ymgynghoriad, Rhan Un y Bwrdd y fformiwla newydd arfaethedig, pe bai'n cael ei chymhwyso i gydbwysedd gwleidyddol a dosbarthiad grwpiau'r Senedd bresennol o 60 Aelod. Dyma fersiwn wedi'i diweddaru o'r tabl cymharol hwn:

| | Llafur | Ceidwadwyr | Plaid Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol | Annibynnol (Ceid) | Annibynnol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau** | 30 | 15 | 12 | 1 | 1 | 1 |
| **Dyraniad presennol Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 2025-26** | £203,480 | £531,249 | £438,433 | £30,939 | £30,939 | £0 |
| **Cymorth i Grwpiau'r Senedd** | £262,500 | £600,000 | £510,000 | £0 | £0 | £0 |

**195.** Mae'r Bwrdd wedi cadarnhau'r gyfradd graidd fesul Aelod ar hyn o bryd, fel y gall grwpiau a phleidiau gwleidyddol presennol fodelu eu dyraniad cymorth grŵp posibl, gan gynnwys unrhyw strwythurau staffio (a chymhwyso'r adolygiad tâl a graddio cyn y Seithfed Senedd), yn seiliedig ar eu senarios modelu etholiadol eu hunain.

**196.** Ystyriodd y Bwrdd, hefyd, oblygiadau'r gyfradd is fesul Aelod a gymhwysir i grwpiau a gynrychiolir yn y llywodraeth.

**197.** Mae'r Bwrdd yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod Cefnogaeth i Grwpiau'r Senedd wedi'i phwysoli i ddarparu mwy o adnoddau i grwpiau anllywodraethol nag i grwpiau a gynrychiolir yn y llywodraeth. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd, hefyd, yn cydnabod y gall grwpiau llywodraeth gynnwys nifer o Aelodau meinciau cefn sy'n ymgymryd â datblygu polisïau, yn cynnal gwaith craffu ar ddeddfwriaeth ac ar y llywodraeth, gan gynnwys mewn senario clymblaid.

**198.** Un o egwyddorion arweiniol y Bwrdd yw cefnogi diben strategol y Senedd. Nododd y Bwrdd yn ei ymgynghoriad, Rhan Un, fod clymbleidiau wedi bod yn nodwedd reolaidd o lywodraeth ddatganoledig dros dymhorau amrywiol y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Gyda'r system etholiadol newydd, rhagwelir y bydd clymbleidiau yn parhau i fod yn nodwedd, os nad yn elfen angenrheidiol, er mwyn galluogi Llywodraeth sefydlog a Senedd a all weithredu'n effeithiol.

**199.** Yng ngwaith modelu'r Bwrdd, mewn rhai senarios clymblaid, byddai grwpiau llywodraeth â nifer sylweddol o Aelodau yn gweld gostyngiad yn y Gefnogaeth i Grwpiau'r Senedd i lefel a fyddai'n darparu cyllideb annigonol i gyflogi staff sydd eu hangen i gefnogi swyddogaethau craidd y grŵp, a dibenion y Cymorth i Grwpiau'r Senedd.

**200.** Ystyriodd y Bwrdd, felly, amrywiaeth o opsiynau i liniaru'r effaith mewn sefyllfaoedd o'r fath, gan gynnwys mecanwaith cyllid gwaelodol. Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod terfyn cyflog isaf yn seiliedig ar groniad o'r tri phwynt cyflog uchaf, o'r tri band uchaf y gellir eu cyflogi o fewn Swyddfa Grŵp (Pennaeth Staff, Uwch Ymgynghorydd a Band 1), yn debyg i fethodoleg bresennol y Bwrdd ar gyfer cyfrifo cyllideb staffio Aelod, yn briodol ac yn sicrhau darpariaeth adnoddau staffio cymesur; byddai'r dull hwn yn sicrhau bod gan grwpiau o 17 Aelod neu lai gyllideb ddigonol i gyflogi o leiaf 3 aelod o staff.

Canlyniad

Penderfynodd y Bwrdd osod isafswm Cymorth i Grwpiau'r Senedd ar gyfer grwpiau'r llywodraeth, yn seiliedig ar groniad o'r tri phwynt cyflog uchaf o'r tri band uchaf y gellir eu cyflogi o fewn Swyddfa Grŵp (Pennaeth Staff, Uwch Gynghorydd a Band 1).

# Materion eraill

Codwyd y materion canlynol gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd:

**201.** Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at ei rôl ddeuol yn y broses a amlinellir yn y Penderfyniad ar gyfer penderfynu a ddylid derbyn neu wrthod hawliadau hwyr gan Aelodau am ad-daliad costau, ac awgrymodd y dylid adolygu'r broses. Rhaid cyflwyno hawliadau cyn pen tri mis o ddiwedd y mis y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef. Mae paragraff 2.3.8 o'r Penderfyniad yn nodi, lle gwneir hawliad hwyr gan Aelod, y gellir gofyn i'r Prif Weithredwr benderfynu ar resymoldeb unrhyw gyfiawnhad a ddarperir dros hwyrni'r hawliad. Os yw Aelod yn anfodlon â chanlyniad penderfyniad ar hawliad, gallant gyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad i'r Prif Weithredwr. Nododd y Prif Weithredwr y dylid dileu eu rôl yn y cam cychwynnol o benderfynu ar resymoldeb unrhyw gyfiawnhad, er mwyn osgoi'r sefyllfa afresymol o apelio at y Prif Weithredwr, pan fyddan nhw eisoes wedi rhoi barn ar yr hawliad.

**202.** Tynnodd y Prif Weithredwr sylw, hefyd, at absenoldeb darpariaethau clir yn y Penderfyniad ar gynhaliaeth i Aelodau, ac eithrio £20 y noson am bryd bwyd gyda'r nos i Aelod neu ei staff, wrth aros dros nos mewn gwesty neu lety â gwasanaeth. Nododd y Prif Weithredwr y byddai cyflwyno darpariaeth glir sy'n manylu ar hawl yr Aelodau a staff cymorth mewn perthynas â chynhaliaeth ym mhob amgylchiad, yn rhoi eglurder i'r Aelodau ac yn symleiddio’r broses o weinyddu hawliadau.

**Trafod y materion**

**203.** Ar y cyntaf o'r ddau fater hyn, cydnabu'r Bwrdd y gwrthdaro buddiannau sy'n deillio o rôl ddeuol y Prif Weithredwr yn y broses o benderfynu ar hawliadau hwyr. Yn unol â'i nod strategol o symleiddio'r Penderfyniad, mae'r Bwrdd yn adolygu cynnwys a geiriad y Penderfyniad, cyn y Seithfed Senedd. Bydd y Bwrdd yn ystyried y mater a godwyd fel rhan o'r gwaith hwn o symleiddio'r Penderfyniad.

**204.** Cytunodd y Bwrdd i adolygu'r darpariaethau cynhaliaeth ar gyfer Aelodau cyn y Seithfed Senedd.

## Atodiad 1: Y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad

Comisiynydd Safonau’r Senedd

Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig

Grŵp Llafur Cymru

Grŵp Plaid Cymru

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Elin Jones AS, y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Anhysbys, staff cymorth

Uno’r Undeb – Unite

Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol

Yr Athro Kerry Howell, Prifysgol Northumbria